estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Cynnwys rhieni

# Cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni plant oedran ysgol

Mehefin 2018



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **1**

**Prif ganfyddiadau** **4**

**Argymhellion** **6**

**Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni at wahanol ddibenion** **7**

**Rhoi gwybod i rieni am gynnydd a lles** **8**

Adroddiadau cynnydd a nosweithiau rhieni 8
Gofyn cwestiynau a chodi pryderon 10

**Rhoi gwybod i rieni am waith yr ysgol** **14**

Defnyddio technoleg ddigidol i roi gwybod i rieni am waith yr ysgol 14
Gwefannau 14
Negeseuon testun ac e-bost 15
Cyfryngau cymdeithasol 16
Defnyddio llwyfannau digidol i feithrin deialog gyda rhieni 17

**Darparu cymorth i rieni â dysgu a lles** **20**

Gweithdai neu raglenni dysgu 23
Rhaglenni cyn-ysgol 24
Gweithio gyda phartneriaid i ymgysylltu'n effeithiol â rhieni 24
Cydlynwyr cartref-ysgol 25
Gweithgareddau dysgu teuluol 25

**Cynnwys rhieni ym mywyd a gwaith yr ysgol** **27**

Dathliadau, digwyddiadau cymdeithasol a gwirfoddoli 27
Ymgynghori â rhieni am ddarpariaeth 27

**Boddhad rhieni, gweithio mewn partneriaeth a chanfyddiadau arolygu** **31**

**Sail y dystiolaeth** **34**

**Geirfa** **36**

**Cyfeiriadau** **38**

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet i Estyn ar gyfer 2017-2018.

Mae'r adroddiad yn astudiaeth fer lle rydym yn adolygu pa mor effeithiol y mae ysgolion yn cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni plant oedran ysgol ac yn archwilio safbwyntiau rhieni ar y dulliau a ddefnyddir gan ysgolion. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar gyfuniad o gyfweliadau ag arweinwyr ysgol dros y ffôn ac yn ystod arolygiadau, holiadur ar-lein a chyfweliadau grwpiau ffocws gyda rhieni, a gwybodaeth o arolygiadau yn ystod y cylch diwethaf (2010 i 2017). Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y term 'rhiant' i gynnwys rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Gallai fod o ddiddordeb i ysgolion sy'n ceisio adolygu'r ffordd y maent yn cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni i gael gwared ar rwystrau rhag addysg.

## Cefndir

Cydnabyddir yn gyffredinol bod rhieni sydd â'r hyder i gefnogi dysgu eu plant yn cael effaith sylweddol ar gyflawniad disgyblion. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu y gall eu hymglymiad gael mwy o ddylanwad ar addysg plentyn nag ansawdd yr ysgol y maent yn ei mynychu. (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2003)

Yn y 15 mlynedd ddiwethaf, mae ystod eang o sefydliadau wedi adrodd yn helaeth ar y testun hwn. Ymhlith canfyddiadau eraill, dywedant:

- fod dulliau traddodiadol o ymgysylltu â rhieni yn aflwyddiannus am fod rhianta cyfoes yn newid
- mai'r prif rwystr rhag darparu cymorth gartref yw amser
- bod angen i rieni gael gwybodaeth glir, benodol a thargedig gan ysgolion er mwyn ymgysylltu'n effeithiol
- mai rhieni sy'n teimlo'n lleiaf cysylltiedig â'r ysgol yw'r rhai mwyaf beirniadol o'i gwaith
- bod gweithgareddau i ennyn diddordeb rhieni yn nysgu eu plentyn sy'n cael eu hychwanegu at weithgareddau prif ffrwd, ac nad ydynt yn rhan o ddull strategol integredig, yn llai tebygol o lwyddo
- bod rhaglenni sydd wedi eu cynllunio i rieni weithio gyda'u plant gartref heb gymorth na medrau yn ymddangos yn aneffeithiol
- bod technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn cefnogi ymgysylltiad rhieni gan ei bod yn gweddu'n well i drefniadau gweithio hyblyg rhieni
- bod rhieni plant mewn ysgolion uwchradd yn llai tebygol o ddeall yr hyn y mae eu

plant yn ei ddysgu na rhieni plant mewn ysgolion cynradd ac arbennig
- er bod rhieni am i'r llywodraeth ac ysgolion ymgynghori â nhw, prin yw eu hymwybyddiaeth o bolisïau cenedlaethol ar addysg
- bod rhieni o grwpiau economaidd cymdeithasol uwch yn fwy tebygol o fod yn weithgar ar gyrff sy'n cynrychioli rhieni na'r rheiny o grwpiau economaidd is am fod gan yr ail o'r rhain ddiffyg hyder yn eu galluoedd eu hunain
- nad yw ysgolion yn gofyn i leiafrif o rieni ledled y DU gymryd rhan yn y lle cyntaf
- bod gan gyfran fawr o rieni ddiddordeb mewn cymryd mwy o ran weithredol, er enghraifft mewn cynrychiolaeth ffurfiol
- mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar ba ddulliau sydd fwyaf llwyddiannus, ac mae ysgolion yn arfarnu effaith y gwaith hwn yn wael ar y cyfan

Mae'r argymhellion a wnaed o ganfyddiadau'r astudiaethau hyn yn cynnwys y dylai ysgolion:

- sicrhau bod rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel partneriaid yn addysg eu plant
- rhoi cyfleoedd ystyrlon i rieni lywio a ffurfio polisi'r ysgol
- sicrhau y gweithredir yn unol â safbwyntiau rhieni, a'u bod yn cael eu cyfleu wrthynt
- sicrhau bod ymgysylltiad â rhieni yn cynnwys cyfathrebu dwy ffordd
- cryfhau eu hymdrechion i alluogi rhieni i ymgysylltu'n uniongyrchol â dysgu eu plant, yn enwedig ysgolion uwchradd
- gwneud mwy i ymgysylltu â thadau a rhieni iau sy'n fwy agored i dderbyn cymorth
- dyfalbarhau i nodi a chynnwys rhieni sy'n anodd eu cyrraedd er mwyn helpu newid o fod yn feirniadol i fod yn ffrind beirniadol
- cynorthwyo rhieni o gefndiroedd economaidd gymdeithasol is i gymryd rhan trwy eu helpu i ddatblygu eu medrau a magu hyder yn eu plith
- chwalu chwedlau am yr amser sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu ag ysgolion
- helpu rhieni i ddeall polisïau'r llywodraeth

(Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2003; y Sefydliad Gwaddol Addysgol, 2016; y Coleg Cenedlaethol Arweinyddiaeth Ysgolion, 2011; Sefydliad Nuffield 2013; Ofsted, 2011; Ofsted, 2015; PTA UK, 2017; Llywodraeth Cymru, 2016)

Defnyddir ysgol gyfranogi Arnstein (1969) yn aml i asesu effaith dulliau a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus i gynnwys y gymuned y maent yn ei gwasanaethu yn eu gwaith, ac mae'n awgrymu bod cyfranogiad go iawn yn dechrau pan fydd ysgolion yn cyfathrebu i hysbysu. Fodd bynnag, mae strategaethau a ddefnyddir i hysbysu rhieni sy'n unffordd, heb unrhyw gyfrwng adborth, neu rai sy'n cadw'r holl bŵer gwneud penderfyniadau gyda'r ysgol, fel arolygon rhieni, yn gyfyngedig o ran eu heffaith. O dan y model hwn, mae gwir bartneriaethau yn bodoli pan fydd rhieni'n bartneriaid cyfartal mewn prosesau gwneud penderfyniadau. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae gan bob corff cyhoeddus ddyletswydd i weithredu'n gynaliadwy ac mae hyn yn golygu cynnwys y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015).

Yn 2008, amlinellodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gweledigaeth ar gyfer mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawni mewn addysg yn y *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion,* a heriodd ysgolion i weithio gyda'r holl bartneriaid, gan gynnwys rhieni. Yn *Ailysgrifennu'r Dyfodol*, 2014, ail-bwysleisiodd Llywodraeth Cymru bwysigrwydd y gwaith hwn trwy wneud Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd yn un o bedair thema ganolog y rhaglen. Yn dilyn hyn, yn 2015, cyhoeddwyd pecyn canllawiau Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd (YGaTh) sy'n cynnwys adnoddau ymarferol ar gyfer ysgolion i'w helpu i gryfhau eu dulliau o ymgysylltu â rhieni.

Yn 2017, comisiynodd Llywodraeth Cymru arfarniad o'i rhaglen, *Gwerthusiad ac ymchwil ar gyfer y rhaglen waith ymgysylltu â rhieni,* (Llywodraeth Cymru, 2017), a ganfu fod rhieni'n ystyried mai ysgolion yw'r ffynhonnell wybodaeth am addysg y maent yn ymddiried ynddi fwyaf. Mae rhieni mewn ardaloedd cefnog yn gweld addysg fel cyfrifoldeb y maent yn ei rannu â'r ysgol. Mae rhieni eisiau i'r wybodaeth a gânt fod yn gryno, yn glir, a gyda negeseuon sy'n hawdd eu deall. Cadarnhaodd yr arfarniad ganfyddiadau astudiaethau cynnar fod ymgysylltu â rhieni yn newid gydag oedran y plentyn. Mae rhieni sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn fwy tebygol o roi amser i ffwrdd o'r ysgol i'w plant, er enghraifft i leddfu'r hyn y maent yn ei ganfod fel straen wedi'i achosi gan yr ysgol.

Y tro diwethaf i Estyn adrodd ar y testun hwn oedd yn 2009 mewn canllaw i *Arfer dda o ran cynnwys rhieni mewn ysgolion cynradd* (Estyn, 2009). Adroddodd y canllaw fod dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o fod â rhieni nad ydynt yn cymryd rhan yn eu haddysg ac sydd â chanfyddiad a phrofiad negyddol o addysg. Fe wnaethom adrodd hefyd y gall dulliau ymgysylltu â rhieni gael effaith gadarnhaol ar ymddygiad a phresenoldeb, ond bryd hynny, ychydig iawn o ysgolion yn unig oedd â dulliau cyson a oedd yn arwain at lefelau uchel o ymglymiad rhieni ar draws ystod eang o weithgareddau. Canfuom mai brwdfrydedd y pennaeth oedd yr ysgogiad pwysicaf un ar gyfer ymglymiad effeithiol rhieni.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae bron pob ysgol yn sefydlu perthnasoedd adeiladol gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys rhieni. Ceir perthynas agos rhwng deilliannau arolygiad Estyn a graddau boddhad rhieni a gasglwyd mewn holiaduron cyn-arolygiad i rieni.

2 Mae llawer o ysgolion yn mabwysiadu ystod gynhwysfawr gynyddol o strategaethau i gyfathrebu â rhieni. Fodd bynnag, ychydig o ysgolion yn unig sy'n mynd ati i ymgynghori â rhieni i nodi eu dulliau cyfathrebu dewisol.

3 Mae amlder ac ansawdd y cyfathrebu â rhieni yn amrywio'n sylweddol o fewn sectorau, ac ar eu traws. Mae ysgolion uwchradd yn cyfathrebu cryn dipyn yn llai â rhieni plant na rhieni plant mewn ysgol gynradd.

4 Mae mwyafrif o ysgolion yn defnyddio negeseuon testun a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i roi gwybodaeth i rieni am ddigwyddiadau'r ysgol. Mae lleiafrif o ysgolion yn defnyddio ystod o sianeli cyfathrebu digidol i ddatblygu deialog ddwy ffordd werthfawr rhwng athrawon a rhieni, er enghraifft trwy ddefnyddio cymwysiadau digidol (apiau).

5 Yn rhy aml, mae ysgolion yn cyfathrebu ag un rhiant yn unig. O'r herwydd, mamau sy'n derbyn mwyafrif yr ohebiaeth gan ysgolion a gall hyn eithrio tadau yn anfwriadol. Mwyafrif o rieni ysgol gynradd yn unig a thua chwarter rhieni ysgol uwchradd y gwnaed arolwg ohonynt sydd o'r farn fod eu hysgol yn cynnwys tadau a mamau yn gyfartal yn nysgu eu plentyn. Mae rhai ysgolion wedi mabwysiadu strategaethau llwyddiannus i annog tadau i gymryd rhan agosach yn nysgu eu plentyn a chyfrannu at fywyd yr ysgol.

6 Ar y cyfan, mae ysgolion wedi gallu elwa ar ychydig iawn o gymorth allanol ar gyfer eu dulliau ymgysylltu â rhieni, gan gynnwys sut i greu a rheoli eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. O ganlyniad, nid yw pob ysgol yn gwybod sut i ddefnyddio'r rhain a llwyfannau digidol eraill yn ddigon da ac nid oes ganddynt brotocolau clir ar waith i ddiogelu lles staff a disgyblion yn hyderus wrth eu defnyddio.

7 Yn gyffredinol, mae rhieni plant ysgol gynradd yn gweld adroddiadau a nosweithiau rhieni yn fwy defnyddiol na rhieni plant ysgol uwchradd. Mae'n well gan rieni fod athrawon yn trafod cryfderau penodol eu plentyn, a'i feysydd i'w datblygu. Mae hyn yn fwy gwerthfawr nag adroddiadau neu nosweithiau rhieni sy'n cyflwyno gwybodaeth gwricwlaidd generig yn unig. Mewn gormod o ysgolion, mae adroddiadau yn bennaf yn disgrifio'r hyn sy'n cael ei addysgu mewn gwersi, yn hytrach na pha mor dda y mae pob plentyn wedi datblygu ei fedrau, ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth.

8 Mae mwyafrif o ysgolion wedi mabwysiadu ystod o ddulliau gwahanol i'w gwneud yn syml i rieni godi pryderon neu ofyn cwestiynau yn bersonol. Mae llawer o rieni'n gwybod beth yw'r broses ar gyfer codi pryderon yn ysgol eu plentyn, ond nid yw tua hanner y rhieni yn ei chael yn hawdd cysylltu â'u hysgol. Pan fydd ysgolion wedi sicrhau bod rhieni'n deall gyda phwy y dylent gysylltu â gwahanol bryderon, mae hyn

wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder rhieni i fynd at yr ysgol. Mae ysgolion sy'n rheoli eu gohebiaeth gan rieni'n dda wedi rhoi prosesau clir ar waith ar gyfer ymateb i amrywiaeth o ohebiaeth gan rieni.

9 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ar draws pob sector yn mesur gwerth darparu gweithgareddau ychwanegol, fel gweithdai i helpu rhieni i gefnogi datblygiad llythrennedd neu rifedd eu plentyn, neu nosweithiau gwybodaeth am arholiadau sydd ar y gweill. Fodd bynnag, maent yn gwneud hyn ar bresenoldeb rhieni yn unig. Nid oes digon o ysgolion yn arfarnu effaith strategaethau i ymgysylltu â rhieni ynglŷn â safonau a lles disgyblion.

10 Dywed tua hanner rhieni ysgolion cynradd a lleiafrif o rieni ysgolion uwchradd fod yr ysgol yn effeithiol o ran eu helpu i gefnogi dysgu eu plentyn. Mae bron pob ysgol yn gweithio'n briodol gydag asiantaethau allanol i gynorthwyo disgyblion unigol a'u teuluoedd.

11 Mae nifer gynyddol o ysgolion wedi penodi cydlynwyr cartref-ysgol i gefnogi eu gwaith gyda disgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. O bryd i'w gilydd, maent hefyd yn cefnogi neu'n arwain dulliau strategol ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned.

12 Yn gyffredinol, caiff grwpiau anogaeth a rhaglenni cyn-ysgol effaith gadarnhaol ar blant a'u teuluoedd. Mae rhai ysgolion hefyd yn darparu ystod werthfawr o gyfleoedd i rieni ddatblygu eu medrau rhianta eu hunain.

13 Nid yw mwyafrif o rieni ysgol uwchradd a lleiafrif o rieni ysgol gynradd yn teimlo eu bod yn cael cyfleoedd addas i gael eu cynnwys ym mywyd yr ysgol. Mae ysgolion yn adrodd am ymatebion cymysg i'w hymdrechion i gynnwys rhieni yn uniongyrchol ym mywyd yr ysgol.

14 Lleiafrif o rieni yn unig sy'n teimlo bod eu hysgol yn ymgynghori'n dda â nhw am addysg eu plentyn. Dywed ysgolion ar draws pob sector fod nifer yr ymatebion i ymgynghori weithiau'n isel. Mae nifer gynyddol o ysgolion wedi sefydlu fforymau rhieni i'w galluogi i gydweithio'n fwy effeithiol â rhieni ar wella'r ysgol.

15 Ychydig o ysgolion yn unig sy'n hyderus fod eu corff llywodraethol yn adlewyrchu'r cymysgedd economaidd gymdeithasol o rieni a disgyblion yn dda. Nid yw tua hanner y rhieni y gwnaed arolwg ohonynt yn hyderus fod eu safbwyntiau'n cael eu cynrychioli'n dda gan gorff llywodraethol eu plentyn. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'w cyfansoddiad, neu am nad yw rhieni'n siŵr pwy yw eu llywodraethwyr na beth maent yn ei wneud.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Ymgynghori â rhieni ynglŷn â'u hanghenion cyfathrebu ac ymgysylltu, ac adolygu eu dulliau yn unol â hynny i wella cyfathrebu dwy ffordd

A2 Gwella eu sianeli cyfathrebu er mwyn ymgysylltu â'r holl rieni a gwarcheidwaid, yn arbennig tadau

A3 Sicrhau bod adroddiadau a nosweithiau rhieni yn canolbwyntio ar gryfderau penodol plentyn a'i feysydd i'w datblygu

A4 Ei gwneud yn glir sut gellir cysylltu â staff a rhiant-lywodraethwyr, a rhoi prosesau buddiol a chlir ar waith ar gyfer delio â chyfathrebu â rhieni

A5 Ymgynghori ar brotocolau a'u rhoi ar waith ar gyfer rhieni, disgyblion a staff ar ddefnyddio sianeli cyfathrebu digidol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol

A6 Chwilio am ffyrdd o sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau ystod lawn y rhieni sy'n ffurfio cymysgedd economaidd gymdeithasol yr ysgol mewn hunanarfarnu ac ymarferion ymgynghori eraill

A7 Arfarnu dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni ar gyfer cynllunio gwelliant, i sicrhau eu bod yn cael effaith ar safonau disgyblion

**Dylai awdurdodau lleol:**

A8 Ddarparu cymorth ar gyfer ysgolion i ddatblygu eu strategaethau ymgysylltu â rhieni, gan gynnwys defnyddio sianeli cyfathrebu electronig yn ddiogel ac effeithiol, yn enwedig cyfryngau cymdeithasol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A9 Roi rhagor o arweiniad i ysgolion ar sut i sicrhau bod llywodraethwyr yn cynrychioli ac ymgysylltu â rhieni yn effeithiol

## Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni at wahanol ddibenion

16 Mae bron pob un o'r ysgolion a gyfwelwyd yn cydnabod y gall ymgysylltu'n dda â rhieni gael effaith gadarnhaol ar ddysgu. Defnyddiant ystod amrywiol o strategaethau i gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni at amrywiaeth o wahanol ddibenion. Fel arfer, mae mwy nag un diben i ddulliau a strategaethau a ddefnyddir gan ysgolion a gall fod gorgyffwrdd sylweddol rhyngddynt. At ddibenion yr adroddiad hwn, ystyrir dulliau o gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn unol â'r prif ddibenion canlynol:

- **hysbysu** rhieni am waith yr ysgol neu gynnydd eu plentyn
- **creu deialog** gyda rhieni a'u **cynorthwyo** i ymgymryd â dysgu a lles
- **cynnwys** rhieni ym mywyd yr ysgol
- **ymgynghori** â rhieni ar ddarpariaeth
- **cydweithio** â rhieni ar brosiectau ar y cyd er lles yr ysgol a'r gymuned ehangach

17 Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd ysgolion o ran cynnwys rhieni yn amrywio'n sylweddol. Mae ysgolion sydd â dulliau llwyddiannus yn dangos rhai, os nad pob un, o'r nodweddion cyffredin canlynol:

- Maent yn llwyddiannus am fod eu dulliau wedi eu cynllunio'n dda, eu strwythuro a'u cynllunio'n ofalus i gefnogi anghenion pob un o'r rhieni. Weithiau, maent yn sefydlu hyn trwy ymgynghori'n uniongyrchol â rhieni am eu hanghenion cyfathrebu ac ymgysylltu.
- Mae'r ysgolion hyn yn cydnabod nad yw un dull yn addas ar gyfer pob rhiant. Maent yn rhoi cyfuniad o ddulliau ar waith, er enghraifft cyfuniad o strategaethau wedi eu dyfeisio gan sefydliadau trydydd sector neu a ddatblygwyd yn fewnol, sydd wedi eu cynllunio i fodloni nifer o wahanol ddibenion ac ategu ei gilydd. O bryd i'w gilydd, mae hyn yn rhan o ddull cyfannol o ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned.
- Mae'r ysgolion yn defnyddio cyfuniad o strategaethau sydd wedi hen ennill eu plwyf ochr yn ochr â dulliau arloesol i ddatblygu deialog gyda rhieni a'i gwneud yn haws iddynt gyfathrebu â'r ysgol.
- Yn bwysig, maent yn arfarnu eu rhaglenni a'u mentrau yn ofalus i wella darpariaeth ac addasu eu dulliau. Trwy wneud hynny, mae'r wybodaeth y maent yn ei meithrin am yr hyn sy'n gweithio'n dda yn eu helpu i sicrhau bod strategaethau eraill yn llwyddiant hefyd.
- Ar y cyfan, mae ysgolion sydd â lefelau uwch o gyfranogiad ac ymgysylltu â rhieni nid yn unig yn hysbysu a chynnwys rhieni, ond maent hefyd yn ymgynghori a chydweithio â nhw mewn ffyrdd ystyrlon. O ganlyniad, maent yn meithrin ymddiriedaeth rhieni yn llwyddiannus.


18 Ychydig iawn o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn unig oedd yn gallu dibynnu ar gymorth neu gyngor gan wasanaeth gwella ysgolion eu consortiwm rhanbarthol i helpu datblygu eu dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu â theuluoedd, neu a oedd yn gwybod yn benodol at bwy i droi am gyngor o'r fath.

# Rhoi gwybod i rieni am gynnydd a lles

## Adroddiadau cynnydd a nosweithiau rhieni

19 Ym mhob ysgol a arolygwyd yn ystod y cylch arolygu diwethaf (2010-2017), mae perthynas gref rhwng y farn a ddyfarnwyd i ysgolion ar gyfer **Cwestiwn Allweddol 2 Darpariaeth** a rhieni'n adrodd eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn. Yn ychwanegol, mae canfyddiadau'n dangos bod rhieni disgyblion mewn ysgolion yng ngrwpiau meincnod prydau ysgol am ddim (PYDd) 1 a 2 (amddifadedd isel) yn teimlo nad ydynt yn cael eu hysbysu cystal am gynnydd eu plentyn â rhieni disgyblion mewn ysgolion yng ngrwpiau PYDd 4 a 5 (amddifadedd uchel) ar draws yr holl farnau.

**Ffigur 1: Canran yr atebion cadarnhaol i "Rydw i'n cael fy hysbysu'n dda am gynnydd fy mhlentyn" o gymharu â barnau ar gyfer darpariaeth yn ystod arolygiadau o ysgolion a gynhelir (2010-2017)**




20 Mae bron pob ysgol yn cydymffurfio â'u dyletswydd statudol i adrodd am gynnydd disgyblion wrth rieni. Mae llawer o rieni ysgolion cynradd y gwnaed arolwg ohonynt yn credu bod adroddiadau ar gynnydd eu plentyn yn llawn gwybodaeth. Fodd bynnag, tua hanner y rhieni yn unig sydd â phlant oedran ysgol uwchradd sydd o'r farn fod adroddiad eu plentyn yr un mor ddefnyddiol. Pan fydd rhieni'n gweld adroddiadau'n fuddiol, mae hyn yn aml am eu bod yn sôn am y plentyn unigol, ac felly'n nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu'n glir, yn ogystal â'r camau sydd eu hangen i ddatblygu ymhellach. Mae rhieni'n ei weld yn llai buddiol pan fydd adroddiadau'n cynnwys gormod o wybodaeth generig, fel disgrifiadau o ddarpariaeth gwricwlaidd. Hefyd, nid ydynt yn hoffi derbyn adroddiadau yn ystod nosweithiau rhieni gan nad yw hyn yn rhoi digon o amser iddynt ystyried y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ynddynt cyn siarad ag athrawon eu plentyn.

21 Mae pob ysgol yn cynnig cyfarfod ffurfiol gydag athrawon i rieni o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod cynnydd a lles eu plentyn. Yn gyffredinol, mae rhieni'n gwerthfawrogi nosweithiau rhieni gan eu bod yn rhoi cyfle i siarad ag athrawon wyneb yn wyneb am ddysgu eu plentyn, i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon, a dathlu llwyddiant. Fodd bynnag, mae lleiafrif o rieni ysgolion uwchradd a rhai rhieni ysgolion cynradd o'r farn nad yw'r cyfarfodydd hyn yn eu helpu i gyfranogi yn nysgu eu plentyn yn ddigon da.

22 Mae nosweithiau rhieni i drafod cynnydd plentyn yn fwyaf effeithiol ac yn galluogi rhieni i gael y dylanwad mwyaf:

- os yw athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda, yn canolbwyntio'n fanwl ar gryfderau'r plentyn a'i feysydd i'w datblygu ac nid ydynt yn llenwi amser neilltuedig â gwybodaeth generig
- os yw ysgolion yn eu cynnwys yn ddigon cynnar yn ystod y flwyddyn i rieni wneud gwahaniaeth wrth gynorthwyo eu plant yn ystod y flwyddyn
- os ydynt yn cael eu trefnu'n dda, fel bod digon o amser neilltuedig yn cael ei roi i rieni siarad ag athrawon a bod yr amseroedd aros rhwng ymgynghoriadau unigol mewn ysgolion uwchradd yn fyr
- os caiff rhieni o leiaf un cyfle bob blwyddyn i siarad yn uniongyrchol â'u hathrawon dosbarth yn hytrach na'u tiwtoriaid dosbarth yn unig, fel sy'n digwydd weithiau mewn ychydig iawn o ysgolion uwchradd

23 Mae'n well gan y rhan fwyaf o rieni ac ysgolion fod nosweithiau rhieni'n cael eu cynnal ar ddiwedd diwrnod ysgol. Mae hyn yn galluogi rhieni i fynychu y tu allan i oriau gwaith neu wneud trefniadau ar gyfer gofal plant, er enghraifft. Fodd bynnag, mae cyfarfodydd gyda'r nos yn her i ysgolion. Os cânt eu cynnal yn rhy gynnar, ni all pob rhiant fynychu. Ond eto, gall gohirio dechrau nosweithiau rhieni gael effaith negyddol ar les athrawon sy'n nodweddiadol yn siarad â llawer o rieni yn ystod y noson ac angen gorffwys cyn y diwrnod canlynol.

24 Mae nifer o ysgolion, ac ysgolion cynradd yn bennaf, yn mabwysiadu ystod o ddulliau ar gyfer nosweithiau rhieni er mwyn goresgyn rhai o'r problemau hyn. Er enghraifft, maent yn darparu nosweithiau rhieni bob tymor, adroddiadau, neu gyfleoedd eraill yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol i rieni alw draw i siarad â staff neu fwrw golwg dros waith plant. Mae Ysgol Glan Morfa, sef ysgol gynradd yng Nghonwy, yn cynnal bore coffi blynyddol i bob dosbarth arddangos gwaith disgyblion yn ogystal â nosweithiau rhieni. Mae darparu ystod o gyfleoedd i rieni siarad â staff yn caniatáu cydweithrediad agosach ar gynnydd a lles a phartneriaethau gwell gyda rhieni na nosweithiau rhieni yn unig.

25 Mae tua hanner rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol ar draws pob lleoliad yn teimlo bod ysgol eu plentyn yn cyfleu gwybodaeth am ddysgu a lles eu plentyn yn dda, er enghraifft am eu cynnydd ar ymyriadau. Mae llawer o ysgolion arbennig a rhai adrannau anghenion dysgu ychwanegol prif ffrwd yn bodloni anghenion cyfathrebu rhieni trwy ddefnyddio llyfr cartref-ysgol i gyfathrebu'n rheolaidd am gynnydd a lles plant ag anghenion dysgu ychwanegol, weithiau bob dydd neu bob wythnos, yn dibynnu ar anghenion disgyblion. Yn Ysgol Pendalar, yng Ngwynedd, mae athrawon yn defnyddio dyfeisiau electronig personol disgyblion heb eiriau a hollol fyddar i dynnu lluniau o weithgareddau yn ystod y dydd er mwyn darparu cyfleoedd i gyfathrebu am y diwrnod ysgol gyda'u teuluoedd ar ddiwedd y dydd.


## Gofyn cwestiynau a chodi pryderon

26 Mae'n well gan y mwyafrif o rieni gyfathrebu ag ysgolion wyneb yn wyneb, er enghraifft i godi pryderon neu ofyn cwestiynau. Mae bron pob ysgol yn honni bod ganddynt bolisi drws agored, ond eto mae'r effeithiolrwydd yn amrywio'n eang. Mae llawer o rieni ysgolion cynradd a mwyafrif rhieni ysgolion uwchradd a ymatebodd i'n harolwg yn gweld ardal y dderbynfa yn lle croesawgar, a bod staff yn gyfeillgar, yn bobl hawdd mynd atynt ac yn gymwynasgar. Mae llawer o rieni'n gwybod beth yw'r broses ar gyfer codi pryderon neu gwyno. Ym marn mwyafrif rhieni ysgolion cynradd a thua hanner rhieni ysgolion uwchradd y gwnaed arolwg ohonynt, mae ysgol eu plentyn yn delio'n brydlon ag unrhyw bryderon a godir.


27 Mae gan fwyafrif o ysgolion systemau buddiol ar waith i'w gwneud yn haws i rieni rannu gwybodaeth, gofyn cwestiynau neu godi pryderon eu hunain. Mae'r systemau hyn yn sicrhau ymdriniaeth brydlon â materion neu'u bod yn cael eu cyfeirio at yr aelod o staff mwyaf addas ar gyfer delio â'r mater. Fodd bynnag, mae lleiafrif o rieni ar draws pob sector yn teimlo y gallai ysgol eu plentyn wneud mwy i hwyluso cyfathrebu yn y modd hwn. Mae rhieni, yn enwedig rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol, eisiau sicrwydd fod eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif.

28 Mae dadansoddiad o farnau ar gyfer **Cwestiwn Allweddol 3 Arweinyddiaeth**, o gymharu ag adolygiad o gyfran yr atebion cadarnhaol i gwestiynau ar b'un a yw rhieni'n deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion a ph'un a ydynt yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol i ofyn cwestiynau, cynnig awgrymiadau neu godi problem, fel y nodwyd mewn holiaduron cyn-arolygiad, yn dangos bod gostyngiad nodedig yng nghyfran yr atebion cadarnhaol gan rieni disgyblion mewn ysgolion yng ngrwpiau PYDd 4 a 5 (amddifadedd uchel) pan fernir bod ysgolion yn **anfoddhaol** am arweinyddiaeth. Yn benodol, maent yn teimlo'n llai cyfforddus yn mynd at ysgolion ag arweinyddiaeth anfoddhaol pan fydd problem na rhieni disgyblion mewn ysgolion yn y ddau grŵp uchaf (amddifadedd isel). Mae hyn yn awgrymu y gallai'r ysgolion â'r arweinyddiaeth wannaf wneud mwy i gynorthwyo rhieni o gefndiroedd economaidd gymdeithasol is i ymgysylltu â nhw, er enghraifft trwy wella cyfathrebu a datblygu medrau rhieni a'u hyder i fynd at yr ysgol.

**Ffigur 2: Canran yr atebion cadarnhaol i "Rydw i’n deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion" o gymharu â barnau ar gyfer arweinyddiaeth yn ystod arolygiadau o ysgolion a gynhelir (2010-2017)**




**Ffigur 3: Canran yr atebion cadarnhaol i "Rydw i’n teimlo’n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol i ofyn cwestiynau, cynnig awgrymiadau neu godi problem" o gymharu â barnau ar gyfer arweinyddiaeth yn ystod arolygiadau o ysgolion a gynhelir (2010-2017)**




29 Mae ysgolion ag arfer dda yn sicrhau bod athrawon dosbarth neu uwch arweinwyr yn weladwy ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd i gael gwybodaeth neu negeseuon bras gan rieni neu ateb cwestiynau. Mae ysgolion llwyddiannus eraill yn helpu goresgyn rhwystrau ar gyfer rhieni, fel trafod materion sensitif gydag ysgrifenyddes y swyddfa, trwy sicrhau bod arweinydd neu aelod allweddol o staff, fel y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, pennaeth cyfnod allweddol, neu swyddog cyswllt teuluoedd, wrth law bob dydd i “archwilio” pryderon a gweithredu arnynt yn gyflym pan fo modd.

30 Mae lleiafrif o ysgolion yn darparu sesiynau ‘galw i mewn’ rheolaidd ar gyfer rhieni gyda’r pennaeth neu arweinwyr eraill hefyd. Mae’r sesiynau hyn yn galluogi rhieni i godi pryderon ehangach neu ofyn cwestiynau am faterion fel darpariaeth gwricwlaidd. Er mai nifer fach o rieni sy’n manteisio ar y sesiynau hyn weithiau, maent yn golygu y gellir delio â materion syml yn gyflym ac yn creu synnwyr o dryloywder a didwylledd hefyd. Mae rhai penaethiaid yn defnyddio’r wybodaeth y maent yn ei chasglu yn ystod y sesiynau hyn yn effeithiol at ddibenion hunanarfarnu, er enghraifft i gael amcan o safbwyntiau rhieni yn anffurfiol ar agweddau ar y ddarpariaeth.

31 Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Aberteifi, sef ysgol gynradd yng Ngheredigion, mae’r pennaeth yn weladwy wrth giât yr ysgol bob dydd ac mae gweithwyr cymorth bugeiliol wrth y drws i gyfarch rhieni a phlant bob dydd i ddelio ag unrhyw faterion bugeiliol. Mae’r ysgol yn cynnwys sesiynau galw i mewn bob dydd Gwener hefyd gyda’r cydlynwyr anghenion ychwanegol, grŵp anogaeth, a chymorth bugeiliol. Mae’r ysgol yn defnyddio pob un o’r strategaethau hyn i sicrhau bod ei pholisi drws agored yn gwbl effeithiol a’u bod yn gallu cyrraedd ystod mor eang o rieni ag y bo modd.

32 Pan fydd ysgolion yn rheoli gohebiaeth gan rieni’n dda, mae rhieni’n gwybod at bwy ddylent droi ar gyfer gwahanol faterion, pryd a sut i fynd at staff, a natur y pryderon i’w codi mewn gwahanol fforymau. Mae’r eglurder hwn yn rhoi hyder i rieni fod croeso iddynt fynd at yr ysgol a’u bod yn mynd at yr unigolyn cywir i ddelio â’u pryderon. Mae hyn yn lleihau pryder ynghylch siarad â staff ac yn cynyddu hyder rhieni y bydd materion yn cael eu trin yn effeithiol. Pan fydd y systemau hyn yn gweithio’n dda, dywed ysgolion eu bod wedi lleihau nifer y materion sy’n dwysáu i fod yn gwynion ffurfiol.

33 Mae rhieni’n codi pryderon dros y ffôn neu drwy’r e-bost mewn lleiafrif o achosion. Mae tua hanner y rhieni ysgolion uwchradd y gwnaed arolwg ohonynt yn ei chael yn anodd dod o hyd i’r manylion cyswllt cywir, ac yn amlach na pheidio, nid yw staff yn dychwelyd negeseuon e-bost na galwadau ffôn. Mewn ysgolion sydd â strategaethau effeithiol, mae prosesau buddiol ar gyfer delio â gohebiaeth gan rieni yn y modd hwn. Mae’r rhain yn cynnwys cyflwyno atebion penodol i rieni os byddant yn ffonio’r ysgol neu’n cysylltu drwy’r e-bost gyda graddfeydd amser clir ar gyfer ateb. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn deall a bodloni disgwyliadau ynglŷn ag amseroedd ateb i rieni.

34 Mewn nifer fach o achosion, gall perthnasoedd rhwng yr ysgol a’r rhieni chwalu. O ganlyniad, gall delio â chwynion rhieni gymryd cyfran fawr o amser arweinwyr. I wella’r modd y maent yn rheoli cwynion, mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen Y Fai ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi rhoi protocolau buddiol a sensitif ar waith ar gyfer cyfleu proses a chanlyniadau unrhyw ymchwiliadau i gwynion sydd wedi dwysáu:

**Astudiaeth achos: delio â sefyllfaoedd anodd**

Mae **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen y Fai** wedi'i lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae 230 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 4% ohonynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

Cadarnhaodd ymgynghoriad gyda rhieni, adborth gan staff ac adolygiad o gwynion hanesyddol fod cyfathrebu rhwng yr ysgol a rhieni yn wan. Mewn ychydig iawn o achosion, roedd hyn yn cyfrannu at ddwysáu problemau y tu hwnt i'r ysgol, gan gymryd llawer o amser ac adnoddau. Penderfynodd y pennaeth nad oedd gan yr ysgol system gydlynus a pholisïau clir ar gyfer cyfathrebu â rhieni.

Newidiodd yr ysgol nifer o'i phrosesau ymgysylltu a chyfathrebu o ganlyniad i'r ymgynghoriad. I wella'r modd yr ymdrinnir â chwynion, rhoddodd y pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr brotocol ar waith ar gyfer ymateb i gwynion sydd wedi dwysáu i'r pennaeth a'r corff llywodraethol. Mae'r protocol hwn yn sicrhau ymdriniaeth gyfannol â chwynion, bod trafodaethau'n cael eu cofnodi a'u cytuno rhwng pawb, a bod dull cyson o gadw cofnodion. Prif ddiben y protocol yw osgoi chwalu perthnasoedd. Felly, mae'n cwmpasu'n arferol:

- ddisgrifiad o'r digwyddiad
- sut ymdrinniwyd â'r digwyddiad i ddechrau
- cyngor a chytundeb ar sut i sicrhau bod perthnasoedd yn cael eu cynnal tra bydd y gŵyn yn destun ymchwiliad
- mynegi cydymdeimlad am bryderon y rhiant sy'n cyflwyno'r gŵyn
- disgrifiad o weithdrefnau sicrhau ansawdd yr ysgol sy'n berthnasol i natur y gŵyn
- syniad clir ynglŷn â'r amserlen ar gyfer ymateb

Mae hefyd yn amlinellu disgwyliadau ac egwyddorion arweiniol ynglŷn â sut y dylid ymdrin â chwynion.

Mae nifer y cwynion sydd wedi dwysáu y tu hwnt i'r pennaeth wedi gostwng yn sylweddol. Mae arolygon yn cadarnhau bod rhieni'n hapusach o lawer â'r ffordd y mae'r ysgol yn cyfathrebu â nhw.

## Rhoi gwybod i rieni am waith yr ysgol

35 Mae ysgolion wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau i rannu gwybodaeth gyda rhieni. Fodd bynnag, mae amrywiad eang o fewn sectorau ac ar eu traws, o ran rheoleidd-dra ac ansawdd y wybodaeth y mae ysgolion yn ei hanfon at rieni. Yn nodedig, caiff rhieni ysgolion cynradd ohebiaeth fwy rheolaidd na rhieni ysgolion uwchradd, ac mae rhieni ysgolion uwchradd yn nodi bod gostyngiad sylweddol o ran faint o wybodaeth a gânt wedi i'w plentyn ddechrau yn yr ysgol uwchradd. Nid yw tua hanner rhieni ysgolion uwchradd a ymatebodd i'n harolwg o'r farn fod ysgolion uwchradd yn cyfathrebu â nhw yn ddigon rheolaidd ac nid ydynt bob amser yn gweld y wybodaeth a gânt yn ddefnyddiol.

### Defnyddio technoleg ddigidol i roi gwybod i rieni am waith yr ysgol

36 Mae'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion i gyfathrebu â rhieni yn newid. Mae llawer o ysgolion yn cynyddu ystod eu sianeli cyfathrebu, yn rhannol mewn ymdrech i fod yn ddibapur er mwyn lleihau costau gweinyddol ac argraffu. Fodd bynnag, gan mai traean o rieni yn unig sy'n dweud eu bod yn darllen dyddiadur eu plentyn yn rheolaidd neu'n ei ddefnyddio fel ffurf o gyfathrebu, mae ysgolion yn amrywio eu dulliau hefyd er mwyn hysbysu a chynnwys rhieni, ac ymgysylltu â nhw yn well. I gyflawni hyn, mae llawer o ysgolion yn troi at amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu digidol, er enghraifft gwefannau, testun ac e-bost, cyfryngau cymdeithasol a chymwysiadau digidol tebyg. Fe'u defnyddir nid yn unig am eu bod yn gweddu i ffyrdd o fyw prysur rhieni a'u bod yn fwy dibynadwy na phost disgyblion, ond am fod rhieni wedi arfer eu defnyddio hefyd. Mae mwyafrif y rhieni ysgolion cynradd a thua hanner y rhieni ysgolion uwchradd y gwnaed arolwg ohonynt yn teimlo bod ysgol eu plentyn yn cyfathrebu â nhw yn effeithiol. Mae hyn yn bennaf am fod rhieni'n gwerthfawrogi derbyn gwybodaeth yn electronig.

37 Prif ddiben yr holl ohebiaeth a gaiff rhieni yw rhoi gwybod iddynt am ddigwyddiadau yn yr ysgol. Mae wyth deg pump y cant o rieni y gwnaed arolwg ohonynt sy'n cael gwybodaeth yn electronig yn gwneud hynny at y diben hwn. Mae tua 30% o rieni wedi derbyn negeseuon electronig am bresenoldeb, tra bod tua chwarter ohonynt yn cael gwybodaeth am waith cartref, profion neu ymddygiad. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd y llwyfannau a ddefnyddir gan ysgolion i gyfleu gwahanol fathau o negeseuon. Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn addas ar gyfer rhannu gwybodaeth generig fel digwyddiadau yn yr ysgol, ac fe'u defnyddir yn helaeth gan ysgolion, tra bod gwybodaeth am bresenoldeb plentyn unigol, er enghraifft, yn fwyaf tebygol o gael ei hanfon trwy neges destun yn uniongyrchol at y rhiant dan sylw. At ei gilydd, ni wneir defnydd mor helaeth o gymwysiadau digidol (apiau) â'r defnydd o negeseuon testun uniongyrchol neu gyfryngau cymdeithasol.

### Gwefannau

38 Mae mwyafrif o ysgolion yn gweld eu gwefannau fel sianeli cyfathrebu sefydlog, er enghraifft fel prosbectws ar gyfer yr ysgol a lle i bostio gwybodaeth statudol. Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n defnyddio eu gwefan fel ffordd o fynd ati i gyfathrebu â rhieni,

neu ymgysylltu â nhw. Yn aml, yn yr achosion hyn, mae penaethiaid yn cydnabod y niwed y gall gwefan sydd wedi dyddio ei gwneud i hyder rhieni yn ogystal ag enw da'r ysgol, felly maent yn diweddaru eu gwefannau yn rheolaidd, ac yn postio blogiau penaethiaid, llif cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, a digwyddiadau sydd ar ddod arnynt, er enghraifft. Ychydig iawn o ysgolion sy'n postio gwybodaeth ar eu gwefan sy'n benodol i ddosbarthiadau unigol.

39 Tua hanner o rieni yn unig sy'n gweld y wybodaeth ar wefannau ysgolion yn ddefnyddiol neu'n hawdd dod o hyd iddi, ac nid yw lleiafrif o rieni yn defnyddio gwefan ysgol eu plentyn o gwbl. Mae hyn yn rhannol am fod rhywfaint o'r wybodaeth ar fwyafrif o wefannau ysgolion wedi dyddio. Yn aml, dywed ysgolion eu bod yn ei chael yn anodd cynnal eu gwefan. Mae rhai gwefannau heb eu datblygu'n ddigonol o hyd am nad oes gan ysgolion yr arbenigedd na'r adnoddau i'w datblygu'n fewnol neu'r cyllid i gyflogi pobl sydd â'r medrau i'w sefydlu. I oresgyn hyn, mae gan ychydig iawn o ysgolion wefannau sydd wedi cael eu sefydlu gan rieni, ac yn cael eu rheoli ganddynt.

### Negeseuon testun ac e-bost

40 Yn ein hadroddiad thematig yn 2009, fe wnaethom argymell y dylai ysgolion wella cyfathrebu trwy anfon negeseuon testun neu e-bost (Estyn, 2009). Ar hyn o bryd, negeseuon testun yw'r dull digidol mwyaf cyffredin o bell ffordd a ddefnyddir gan ysgolion i rannu gwybodaeth â rhieni. Mae mwyafrif o ysgolion yn defnyddio negeseuon testun i rannu negeseuon byr fel nodiadau atgoffa am ddigwyddiadau sydd ar ddod, er enghraifft cyngherddau, nosweithiau rhieni neu wybodaeth frys fel cau ysgolion neu achos o lau pen. Defnyddir negeseuon testun yn llwyddiannus gan nifer o ysgolion i gysylltu â rhieni pan na fydd eu plentyn yn dod i'r ysgol fel rhan o ymateb diwrnod cyntaf i ddelio ag absenoldeb ysgol. Dywed ysgolion fod y rhan fwyaf o rieni yn cofrestru i dderbyn negeseuon yn y modd hwn a dyma'r dull mwyaf dibynadwy o gyfathrebu â rhieni.

41 Mae tua hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn anfon negeseuon e-bost rheolaidd at rieni. Y manteision yw y gellir eu defnyddio i rannu mwy o wybodaeth na negeseuon testun gan fod staff yn gallu ychwanegu dolenni ac atodiadau hwy. Yn gyffredinol, mai llai o rieni yn cofrestru ar gyfer derbyn negeseuon e-bost na negeseuon testun. Hefyd, nid ydynt yn ddefnyddiol ar gyfer negeseuon brys, gan nad yw pob rhiant yn gwirio eu cyfrifon e-bost yn rheolaidd.

42 Mae negeseuon testun ac e-bost yn ddefnyddiol ar gyfer cyfathrebu â rhieni plant nad ydynt yn byw yn yr un cartref â'u plentyn. Fodd bynnag, anfonir negeseuon at un rhiant yn unig yn rhy aml, fel arfer at fam y plentyn, a gall hyn eithrio'r tad yn anfwriadol. Mae hyn yn rhannol am fod llawer o rieni yn nodi mai'r fam yw'r prif ofalwr, ond hefyd am fod ysgolion yn dewis anfon at yr unigolyn cyntaf a enwir yn unig. Nid oes digon o ysgolion yn manteisio ar y dewis i anfon negeseuon, gyda chaniatâd, at y ddau riant, neu at y teulu ehangach, fel neiniau a theidiau. Yn achos negeseuon testun, mae hyn weithiau oherwydd y gost. Dywed tua hanner yr ysgolion nad yw ychydig iawn o rieni'n hysbysu'r ysgol am newidiadau i'w manylion cyswllt, yn enwedig mewn dalgylchoedd economaidd gymdeithasol difreintiedig. Mae hyn yn cyfyngu ar ba mor effeithiol y gall ysgolion ymgysylltu â'r holl rieni trwy ddefnyddio dulliau digidol yn unig.

## Cyfryngau cymdeithasol

43 I ymestyn eu cyrhaeddiad, mae'r mwyafrif o ysgolion yn arbrofi â chyfryngau cymdeithasol. Fe'u defnyddir gan amlaf i gyfleu gwybodaeth ac ymgysylltu mewn un cyfeiriad, sef o'r ysgol at y rhiant, ac mewn rhai achosion, y teulu estynedig a'r gymuned ehangach hefyd. Cyfrifon ysgol gyfan yw'r rhan fwyaf o'r llif cyfryngau cymdeithasol, sy'n cael eu gyrru yn aml gan y pennaeth neu uwch aelod o'u tîm. Mae gan ychydig iawn o ysgolion gyfrifon dosbarth neu bwnc. Yn yr un modd â negeseuon testun, mae rhieni prysur yn gwerthfawrogi gwybodaeth gryno â nifer gyfyngedig o nodau ac mae'r rheiny sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd yn gwerthfawrogi eu bod yn cael eu cynnwys ym mywyd yr ysgol fel hyn. Gallai hyn fod yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith fod canran yr oedolion sy'n mynd ar y rhyngrwyd trwy ddefnyddio eu ffonau symudol wedi mwy na dyblu er 2011 (IPSOS, 2017).

44 Er mai Facebook yw'r llwyfan cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd yn y DU (IPSOS, 2017), ychydig o ysgolion yn unig sy'n ei ddefnyddio. Mae'r mwyafrif o ysgolion yn defnyddio Twitter. Y prif reswm am hyn yw bod Facebook yn cael ei ystyried yn ddull dwy ffordd agored o gyfathrebu ac mae penaethiaid yn ofni y gall fforwm sydd wedi'i gynllunio i ddathlu llwyddiant a chynnwys pobl ym mywyd yr ysgol ddod yn lle i fynegi rhwystredigaeth yn amhriodol. Felly, ychydig o ysgolion yn unig sy'n defnyddio eu llwyfan cyfryngau cymdeithasol fel ffurf o gyfathrebu dwy ffordd rhwng y rhiant a'r ysgol. Mewn ychydig iawn o achosion lle ceisiwyd gwneud hyn, mae ysgolion wedi bod yn agored i gyhoeddusrwydd negyddol. Mae hyn wedi arwain at roi diwedd ar y dull hwn o gyfathrebu â rhieni. Mae ysgolion sy'n rheoli hyn yn briodol yn cymeradwyo pob post allanol cyn ei gyhoeddi. Nid yw cymwysiadau digidol a ddefnyddir at yr un dibenion yn agored i'r cyhoedd, ac felly, nid ydynt yn achosi'r un risgiau. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddefnyddiol ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r gymuned ehangach.

45 Dywed rhai penaethiaid fod tadau yn fwy tebygol o ymgysylltu â gwybodaeth am yr ysgol os caiff ei rhannu'n ddigidol, er enghraifft trwy gyfryngau cymdeithasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw bron pob ysgol sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn olrhain yn fanwl pa rieni, mamau, tadau neu bobl eraill, neu faint ohonynt, sy'n darllen neu sydd wedi ymuno â'u grwpiau, ac nid yw'r mwyafrif ohonynt yn gwybod sut gellir gwneud hyn y tu hwnt i gyfrif nifer y dilynwyr. Ychydig iawn o ysgolion sydd wedi targedu tadau yn benodol i sicrhau eu bod yn barod i dderbyn gwybodaeth yn electronig.

46 Er bod llif cyfryngau cymdeithasol rhai ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i rieni gael eu derbyn i'r grŵp i weld negeseuon, mae rhai ohonynt yn agored i unrhyw un sydd eisiau ymuno, ni waeth beth fo'u cysylltiadau ag ysgol. Yn ychwanegol, nid oes gan bob ysgol reolau diogelu clir ar waith, fel cuddio enwau ar dystysgrifau neu gytundebau ynghylch ailbostio negeseuon. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd diogelu plant yn erbyn camddefnyddio delweddau.

47 Mae gofyn rheolaeth ofalus wrth ddiogelu lles disgyblion a staff tra'n ymdrechu i ymgysylltu'n weithredol â chynifer o rieni ag y bo modd trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae rhai ysgolion yn rheoli hyn trwy roi polisïau clir iawn ar waith ar gyfer eu defnyddio i rieni a staff fel ei gilydd. Mae rhai ysgolion sy'n defnyddio

cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn sicrhau mai dim ond y negeseuon hynny a gymeradwywyd gan weinyddwr sy'n cael eu postio'n gyhoeddus. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn trefnu bod rhywun ar gael i gyflawni'r rôl hon ac mae iddo oblygiadau o ran adnoddau.

48 O gymharu â dulliau o gyfathrebu ar bapur, sy'n gofyn am fwy o baratoi a blaengynllunio, cwynion cyffredin gan rieni am wybodaeth a dderbynnir yn electronig yw eu bod weithiau yn derbyn gormod o negeseuon, a hynny'n rhai amherthnasol, neu fod ysgolion yn anfon gwybodaeth allan yn hwyr iawn o bryd i'w gilydd. Mae hyn, yn arbennig, yn rhoi pwysau ar gartrefi sydd eisoes yn brysur os yw'r neges yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhiant wneud trefniadau ar fyr rybudd. Mae tua hanner yr ysgolion yn osgoi hyn trwy gyhoeddi cylchlythyr rheolaidd sy'n cynnwys dyddiadau am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Cânt eu dosbarthu'n ddigidol ac ar bapur, gyda neges destun, neges e-bost neu lwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill yn cael eu defnyddio ar gyfer nodiadau atgoffa a negeseuon brys yn unig. Pryderon eraill yw bod llai o negeseuon wrth i dymor ysgol fynd rhagddo. Mae ychydig iawn o rieni yn pryderu y gall cyfryngau cymdeithasol a chymwysiadau dynnu sylw athrawon oddi wrth eu gwaith.

49 Mae ysgolion sy'n defnyddio'r dulliau hyn wedi dibynnu ar arfer dda a rennir gan ysgolion eraill neu brofiadau personol mewnol. Er bod gan lawer o awdurdodau lleol bolisïau cyffredinol ar waith ynglŷn â defnyddio cyfryngau cymdeithasol, nid yw nifer o ysgolion yn yr arolwg wedi gallu elwa ar gymorth a chyngor gan gonsortia rhanbarthol nac awdurdodau lleol ar sut i sefydlu a rheoli eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eu hunain. Mae gormod o ysgolion nad ydynt yn deall cyrhaeddiad a photensial llawn defnyddio cyfryngau cymdeithasol nac yn gwybod sut i reoli'r holl risgiau sy'n gysylltiedig â nhw yn ddigon da.

### Defnyddio llwyfannau digidol i feithrin deialog gyda rhieni

50 Yn ogystal â defnyddio technoleg fodern i hysbysu rhieni a'u cynnwys ym mywyd yr ysgol, mae lleiafrif o ysgolion yn defnyddio sianeli digidol i wella'r ffyrdd y maent yn ennyn diddordeb rhieni mewn dysgu a lles.

51 Mae rhai ysgolion yn defnyddio technoleg ddigidol i ymateb yn effeithiol i anghenion rhieni nad ydynt yn gallu mynychu digwyddiadau yn yr ysgol. Er enghraifft, mae Ysgol Gynradd Pont-y-clun yn Rhondda Cynon Taf yn postio sesiynau tiwtorial ar fideo o arddangosiadau mathemategol a grëwyd gan ddisgyblion ar ei gwefan i rieni eu gweld pan fydd yn gyfleus, a'u hymarfer â'u plant gartref.

52 Mae rhai ysgolion, rhai cynradd yn bennaf, yn defnyddio cymwysiadau digidol (apiau), y mae rhai ohonynt am ddim, i rannu ystod eang o wybodaeth. Mae'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn defnyddio'r apiau hyn mewn nifer o ffyrdd arloesol i helpu dileu'r rhwystrau traddodiadol rhwng y cartref a'r ysgol:

- i anfon negeseuon byr neu hirach, er enghraifft ar newidiadau i bersonél, digwyddiadau sydd ar ddod neu gylchlythyrau
- i rannu ystadegau presenoldeb, gwobrau neu wybodaeth am ymddygiad a phrofi canlyniadau ar gyfer plant penodol gyda'u rhieni
- i rannu delweddau o waith disgyblion ar unwaith gyda rhieni ar eu ffonau, eu

cyfrifiaduron llechen neu gyfrifiaduron personol
- i hysbysu rhieni am anawsterau penodol mae eu plentyn yn eu cael â'i ddysgu fel y gall rhieni gynorthwyo eu plentyn gartref
- i rannu dolenni i adnoddau, fel fideos, taflenni gwaith a lluniau
- fel gwaith cartref neu ddyddiadur darllen
- fel llyfr cartref-ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- i alluogi rhieni i drefnu eu hapwyntiadau eu hunain mewn nosweithiau rhieni a gallu gweld athrawon sydd ar gael ac amseroedd
- i ymgynghori â rhieni

53 Mae'r rhan fwyaf o rieni sy'n derbyn gwybodaeth yn y modd hwn yn credu bod eu hysgol yn eu hysbysu'n dda. Maent yn gwerthfawrogi bod y wybodaeth a gânt yn aml yn ymwneud yn benodol â'u plentyn, ac yn rhoi cyfle iddynt gyfathrebu â'r ysgol a datblygu deialog ynglŷn â dysgu eu plentyn yn ogystal. Mae ysgolion sy'n eu defnyddio yn sôn am nifer o fanteision. Gan eu bod ar gymhwysiad digidol (ap), nid oes angen iddynt gael gwybodaeth gyswllt gyfoes er mwyn i rieni allu anfon negeseuon atynt. Gellir anfon negeseuon at unigolion neu grwpiau. Maent yn aros yn breifat rhwng yr ysgol a'r rhieni ac nid ydynt yn agored i'r cyhoedd. Mantais arall yw na all rhieni ailbostio negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol yn hawdd. Dywed penaethiaid sy'n defnyddio apiau eu bod yn galluogi'r ysgol i ddilyn pa mor dda y mae rhieni unigol yn darllen negeseuon ac mae hyn yn galluogi ysgolion i ddarparu cymorth ychwanegol pan fydd angen. Dywed ysgolion fod rhieni'n hapusach â chyfathrebu yn yr ysgol a bod cyfran fwy yn cymryd rhan fwy uniongyrchol yn nysgu eu plentyn. Mae'r ysgolion hyn yn adrodd am welliannau mewn presenoldeb ac ymddygiad. O'r rhieni a ymatebodd i'n harolwg, defnyddio apiau oedd y ffurf o gyfathrebu digidol a dderbynnir sy'n cael ei chroesawu yn y ffordd fwyaf cadarnhaol o bell ffordd.

**Astudiaeth achos: sut mae dwy ysgol yn defnyddio technoleg i feithrin deialog gyda rhieni**

Ar ôl arfarnu ei pherthynas â'i dulliau o gyfathrebu â rhieni, cydnabu **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen Y Fai**, Pen-y-bont ar Ogwr, fod angen iddi wella llinellau cyfathrebu rhwng rhieni a'r ysgol. Pennodd fod ei rhieni yn awyddus i fabwysiadu dulliau cyfathrebu newydd a dewisodd ddefnyddio cymhwysiad digidol (ap) sy'n galluogi cyfathrebu dwy ffordd yn breifat rhwng yr ysgol a'r rhieni unigol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r ap i:

- roi gwybod i rieni am ddigwyddiadau a gwaith yn y dosbarth ac yn yr ysgol gyfan
- dathlu a gwobrwyo llwyddiant
- fel ffordd o rannu gwaith disgyblion gyda rhieni
- rhoi arweiniad i rieni ar sut gallant gynorthwyo â meysydd unigol i'w datblygu
- rhoi gwybod i rieni am newidiadau yn yr ysgol
- fel dull i rieni godi pryderon gyda'r ysgol
- gwahodd adborth gan rieni ar newidiadau i bolisïau fel ymddygiad, gwrthfwlio a gwisg ysgol

O ganlyniad i gyflwyno'r ap, ac wrth i brofiad o'r system dyfu, mae'r ysgol wedi lleihau ei defnydd o strategaethau cyfathrebu eraill. Erbyn hyn, mae'r holl rieni

yn elwa ar yr ap, sydd gryn dipyn yn uwch na'r rheiny oedd yn defnyddio Twitter yn unig. Mae'r ysgol yn defnyddio'r swyddogaethau dadansoddeg sy'n rhan o'r ap i adolygu pwy sy'n derbyn negeseuon. Mae gan yr ysgol bolisi dim defnydd ar ôl 6pm, ac mae wrthi'n datblygu polisi defnydd derbyniol ar hyn o bryd.

Nododd hunanarfarnu yn **Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr** yn Aberdâr fod rhieni'n cwyno'n aml nad oeddent yn siŵr fod eu plant yn cael digon o waith cartref, yn enwedig gan fod pa mor gywir a rheolaidd y mae disgyblion yn cofnodi gwaith cartref yn eu dyddiadur gwaith cartref yn amrywio'n sylweddol. Dewisodd yr ysgol ddefnyddio ap sy'n galluogi staff i:

- gofnodi a lanlwytho unrhyw waith cartref, gan gynnwys adnoddau, y maent yn ei osod
- rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau ysgol gyfan a hyrwyddo gweithgareddau newydd
- atgoffa rhieni am bolisïau fel cyfryngau cymdeithasol, gwaith cartref a phresenoldeb
- rhannu dolenni i fideos YouTube, er enghraifft ar gyfer arddangosiadau ar ddulliau mewn mathemateg

O ganlyniad i gyflwyno'r ap hwn, mae'r ysgol wedi gallu arbed cost dyddiaduron gwaith cartref. Mae'r system yn rhoi adroddiadau i reolwyr dysgu fonitro ac olrhain disgyblion nad ydynt yn defnyddio'r ap dros gyfnod o 10 diwrnod. I rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, mae'r ap wedi gwella hygyrchedd gwaith cartref gan eu bod yn gallu ei weld gan ddefnyddio cefndiroedd gwahanol liw. Dywed yr ysgol fod 85% o rieni, gyda hyfforddiant a chymorth, yn mynd ati i ddefnyddio'r cymhwysiad ac mae gwelliant nodedig yn safbwyntiau rhieni ar waith cartref mewn hunanarfarnu.

54 Mae defnyddio cymwysiadau digidol (apiau) yn achosi risgiau tebyg i ddefnyddio ffurfiau electronig eraill o gyfathrebu o ran amlder negeseuon a disgwyliadau o ran pryd mae'n rhesymol cysylltu â staff a disgwyl ymateb ganddynt. Mae ysgolion yn dechrau datblygu polisïau fel "amseroedd tawel" ar gyfer anfon negeseuon at staff neu ganllawiau, trwy ymgynghori â staff, ar gyfer pa mor aml y dylid postio negeseuon gan ddefnyddio'r ap. Mae ysgolion eraill wedi sicrhau bod eu negeseuon yn cael eu cyfleu yn eang trwy gynnal nosweithiau gwybodaeth i gynorthwyo rhieni i lawrlwytho'r llwyfannau hyn a'u defnyddio. Mae Ysgol Gymraeg y Fenni, yn Sir Fynwy, wedi rhoi cytundeb defnydd derbyniol ar waith ar gyfer staff.

## Darparu cymorth i rieni â dysgu a lles

55 Mae tua hanner rhieni ysgol gynradd a mwyafrif o rieni ysgol uwchradd y gwnaed arolwg ohonynt yn dweud bod ysgol eu plentyn yn eu helpu'n dda i gefnogi dysgu eu plentyn.  Er enghraifft, dywedant eu bod wedi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn nosweithiau rhieni, gweithdai neu raglenni ychwanegol i helpu cefnogi dysgu neu les eu plentyn.

56 Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion, fodd bynnag, yn arfarnu effaith eu dulliau yn ddigon da ac yn mesur llwyddiant ar sail presenoldeb rhieni yn unig.  Yn rhy aml, mae cyfradd presenoldeb yn y digwyddiadau hyn yn isel ac mae penaethiaid yn amau eu gwerth.  Maent yn adrodd am amrywiaeth o resymau pam nad yw rhieni'n dangos diddordeb yn eu rhaglenni, er enghraifft:

- diffyg amser
- heriau cludiant i'r ysgol ac oddi yno (mae hyn yn arbennig o wir am leoliadau gwledig neu ble nad oes cludiant cyhoeddus ar ôl amser penodol)
- diffyg hyder neu ddifaterwch, er enghraifft oherwydd profiad blaenorol negyddol o addysg
- diffyg medrau sylfaenol
- problemau cymdeithasol eraill, fel camddefnyddio sylweddau

57 O ganlyniad, mae angen dulliau hynod greadigol a dyfeisgar ar y rhieni hyn i ymgysylltu'n llwyddiannus.  Er enghraifft, dechreuodd staff yn Ysgol Gymraeg y Fenni, Sir Fynwy, gynnal meithrinfa i wella presenoldeb a chyfyngu ar ymyriadau. Mae ysgolion eraill, fel Ysgol Tŷ Gwyn yng Nghaerdydd, yn darparu cludiant i'r ysgol ac oddi yno gyda'r nos pan na fydd llawer o gludiant cyhoeddus, os o gwbl, neu pan fydd diffyg cludiant yn rhwystro presenoldeb i rieni penodol am resymau eraill.

58 Mae llawer o ysgolion cynradd a mwyafrif yr ysgolion uwchradd yn trefnu digwyddiadau gwybodaeth gyffredinol defnyddiol ar gyfer rhieni i gynyddu eu hymwybyddiaeth o ddarpariaeth, dulliau addysgu, a gweithgareddau i gefnogi lles eu plant.  Mae'r rhain yn cynnwys nosweithiau i gyfarfod â staff ar adegau pontio allweddol, gwybodaeth am fedrau fel y fframwaith cymhwysedd digidol, cymwysterau Bagloriaeth newydd Cymru a diogelwch ar y rhyngrwyd.  Er enghraifft, mae rhai ysgolion uwchradd y gwnaed arolwg ohonynt wedi dyfeisio sesiynau medrau arholiad sy'n cael eu mynychu gan nifer dda o ganlyniad i adborth gan rieni ar sut, yn eu barn nhw, y gallai'r ysgol eu helpu i gynorthwyo eu plant trwy eu harholiadau.

**Astudiaeth achos: helpu rhieni i helpu disgyblion ag arholiadau**

Ysgol yr Eglwys yng Nghymru yn Aberdâr yw **Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr**. Mae 1,031 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 13% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

Cydnabu'r ysgol fod rhieni weithiau'n cael trafferth cynorthwyo plant trwy gyfnod arholiadau. Felly, dyfeisiodd yr ysgol noson medrau astudio ar gyfer rhieni a disgyblion. Er mai ffocws y noson oedd darparu strategaethau ar gyfer disgyblion, rhoddwyd cynghorion ymarferol i rieni hefyd ar sut i:

- sicrhau lles a lleddfu straen
- darparu ysbrydoliaeth a chymhellion
- cynnal agwedd gadarnhaol
- rheoli amser yn briodol ac yn effeithiol
- darparu trefn fuddiol yn y cartref

Roedd presenoldeb yn gymharol wael yn y flwyddyn gyntaf, ond cafodd effaith gadarnhaol ar y teuluoedd hynny a fynychodd. Adolygodd yr ysgol ei strategaeth a gwella'r nifer sy'n mynychu trwy gynnal y noson yn gynharach yn ystod y flwyddyn, gan ei hysbysebu yn yr ysgol ac ar gyfryngau cymdeithasol, anfon negeseuon testun at rieni a chynnal cyfarfodydd un i un gyda disgyblion targedig.

Bu gwelliant mewn presenoldeb yn y digwyddiad. Adroddodd disgyblion a rhieni am hyder gwell wrth iddynt agosáu at arholiadau. Bu gwelliant o bum pwynt canran ym mherfformiad yr ysgol yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill pum cymhwyster TGAU, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg, graddau A*-C (Llywodraeth Cymru, 2017).

59 Mae ysgolion yn cydnabod ei bod weithiau'n heriol denu'r holl rieni i ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth. Mae rhai ysgolion yn cynnal digwyddiadau cwricwlaidd a gwybodaeth ar ôl digwyddiadau cymdeithasol, fel cyngherddau carolau neu nosweithiau dathlu, i sicrhau presenoldeb cryf a sicrhau bod ganddynt gynulleidfa gydymffurfiol.

60 Mae tua 60% o rieni ysgol gynradd a 28% o rieni ysgol uwchradd y gwnaed arolwg ohonynt yn teimlo bod eu hysgol yn cynnwys tadau a mamau yn gyfartal yn nysgu eu plentyn. Mae hyn yn cynrychioli gwelliant bach ers y tro diwethaf i Estyn gyhoeddi adroddiad yn y maes hwn (Estyn, 2009). Fodd bynnag, fel yn y gorffennol, mae mamau'n fwy tebygol o gymryd rhan yn nysgu eu plant na thadau. Dywed nifer o ysgolion fod tadau, yn enwedig y rheiny sy'n gweithio, yn ei chael yn anodd cael amser i gyfranogi yn nysgu eu plentyn yn yr ysgol fel hyn. Dywedant nad oedd llawer wedi mynychu gweithgareddau y maent wedi eu cynnal yn y gorffennol a byddent yn croesawu mwy o gymorth yn y maes hwn.

61 Yn yr achosion gorau, ychydig iawn o ysgolion sy'n trefnu digwyddiadau rheolaidd wedi eu targedu'n benodol at dadau neu'r teulu ehangach. Er enghraifft, mae Ysgol Gynradd Tynewydd yng Nghaerffili yn trefnu “Digwyddiad Mawr i Dadau” bob blwyddyn, sy'n boblogaidd, i annog tadau i ddod i mewn i weithio gyda'u plant am y diwrnod.

**Astudiaeth achos: ymgysylltu'n effeithiol â thadau**

Ysgol gynradd yng nghanol dinas Caerdydd yw **Ysgol Gynradd Lansdowne**. Mae 486 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae tua 30% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae ychydig dros hanner y disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, ac mae Saesneg yn iaith ychwanegol i gyfran debyg ohonynt. Nodwyd bod gan ryw chwarter o'r disgyblion angen addysgol arbennig.

I greu cyfleoedd i gyfathrebu â theuluoedd a sicrhau ei bod yn weladwy yn yr ysgol, mae'r pennaeth yn sefyll wrth giât yr ysgol bob dydd i groesawu teuluoedd bob bore. Mae rhieni'n defnyddio'r cyfle hwn i gyfleu unrhyw wybodaeth neu negeseuon pwysig. Sylwodd y pennaeth fod y rhan fwyaf o famau yn mynd â'u plant at faes chwarae'r ysgol, tra bod y rhan fwyaf o dadau yn gadael eu plant wrth giât yr ysgol. Sylwodd hefyd fod y mamau yn fwy tebygol o siarad â hi na thadau, neu fynd â negeseuon i swyddfa'r ysgol.

Roedd grŵp bach o dadau a oedd yn gollwng eu plant wrth giât yr ysgol yn ymgynnull ar ochr arall y ffordd, yn siarad â'i gilydd. Siaradodd y pennaeth â nhw a'u gwahodd i ddod i gyfarfod â hi a chael sgwrs. I ddechrau, derbyniodd tri ohonynt ei gwahoddiad. Gofynnodd gwestiynau iddynt ynglŷn â pham nad oeddent yn dod ar faes chwarae'r ysgol, ac fe wnaethant allu rhoi llawer o adborth buddiol, gan gynnwys:

- Roedd yr athrawon yn gwneud iddynt deimlo dan fygythiad am nad oeddent wedi cael profiad da o ysgol eu hunain.
- Roeddent yn teimlo bod yr ysgol yn ffafrio mamau gan fod negeseuon testun bob amser yn cael eu hanfon at eu partneriaid/cynbartneriaid ac nid atyn nhw.
- Roeddent yn teimlo'n bryderus ynglŷn â rhoi negeseuon i staff gweinyddol yn swyddfa'r ysgol am fod y man aros ger swyddfa'r ysgol yn fach iawn ac roeddent yn pryderu ynglŷn â chyfarfod pobl eraill yr oeddent yn cael anawsterau â nhw y tu allan i'r ysgol.

Gwahoddwyd y tadau hyn i ddod i gyfarfod â'r pennaeth eto ymhen pythefnos er mwyn meddwl ymhellach am y rhwystrau rhag mynd at yr ysgol a chydweithio i feddwl am atebion. Gofynnwyd iddynt siarad â thadau eraill i weld a fydden nhw'n gallu dod i'r cyfarfod hefyd. Mynychodd saith o dadau'r ail gyfarfod. Trefnodd y pennaeth gyfarfod â nhw bob pythefnos i weithio ar nifer o rwystrau ac atebion. Anfonodd lythyrau at deuluoedd hefyd yn gwahodd tadau a gofalwyr sy'n ddynion i ymuno â'r grŵp, a bu'n siarad â mwy o dadau wrth giât yr ysgol. Parhaodd y grŵp i dyfu ym mhob cyfarfod, hyd nes oedd yr ysgol wedi ymgysylltu'n llwyddiannus ag 19 o dadau, a fynychodd rai o'r cyfarfodydd, neu bob un ohonynt.

Rhoddodd y grŵp gymorth i'r ysgol feddwl am atebion ynglŷn â'r rhwystrau roeddent wedi eu nodi a oedd yn atal tadau rhag ymgysylltu â'r ysgol, er enghraifft:

- Cymerodd yr athrawon eu tro i sefyll wrth giât yr ysgol gyda'r pennaeth er mwyn iddynt allu cyfarfod â theuluoedd wrth y giât mewn ffordd fwy dymunol

i annog tadau i beidio â'u gweld yn fygythiad.
- Newidiwyd y gwasanaeth negeseuon testun yr oedd yr ysgol yn ei ddefnyddio am ei fod yn galluogi'r ysgol i anfon negeseuon i un rhif ffôn yn unig fesul teulu ac roedd hyn yn mynd i rif y fam pan oedd mwy nag un rhiant â gwarchodaeth. Dewisodd yr ysgol system a oedd yn caniatáu dau rif ffôn fesul teulu.
- Gwnaeth yr ysgol newidiadau i gyntedd y fynedfa, gan ei hymestyn a chreu ardal aros fawr fel nad oedd pobl yn poeni mwyach am rannu man cyfyngedig gyda phobl eraill yr oeddent yn cael anawsterau â nhw y tu allan i'r ysgol.
- Dechreuodd y grŵp tadau gefnogi penderfyniadau am newidiadau i'r cwricwlwm hefyd, er enghraifft edrych ar gynlluniau darllen o ran pa lyfrau a allai ennyn diddordeb bechgyn, yn eu barn nhw. Edrychon nhw hefyd ar yr amgylchedd dysgu a bu grŵp o dadau yn gwirfoddoli i helpu adeiladu llong môr-ladron rhifedd i ennyn diddordeb bechgyn mewn mathemateg.

Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith sylweddol mewn nifer o feysydd gwaith yr ysgol:

- Mae mwy o dadau wedi dechrau dod â'u plant ar faes chwarae'r ysgol ac yn rhannu negeseuon â staff wrth giât yr ysgol, neu gyda swyddfa'r ysgol.
- Cynyddodd nifer y bechgyn sy'n darllen gartref gan ddefnyddio'r cynllun darllen newydd dros 50%.
- Bu gwelliant yng nghyfraddau presenoldeb bechgyn sy'n byw gyda'u tadau yn unig.
- Cynyddodd nifer y tadau sy'n mynychu noson rieni 23% yn y cyfarfod cyntaf i rieni ar ôl dechrau'r cyfarfodydd tadau.
- Nid oes gan yr ysgol grŵp tadau ar wahân mwyach, ond yn hytrach, mae ganddo grŵp rhieni sydd â chynrychiolaeth dda o famau a thadau. Mae hyn yn awgrymu bod tadau'n teimlo'n gymaint o ran o'r ysgol â mamau.

### Gweithdai neu raglenni dysgu

62 Mae llawer o ysgolion ar draws pob sector wedi rhoi gweithdai eraill ar waith ar ryw adeg i helpu grŵp bach o rieni i gynorthwyo eu plant ag agweddau penodol ar eu dysgu neu'u lles, fel datblygu medrau llythrennedd, rhifedd neu gyfathrebu eraill, fel Makaton, neu â'u hymddygiad.

63 Fodd bynnag, ychydig o ysgolion yn unig sy'n arfarnu effaith eu gweithdai ar gyfer rhieni ar gynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae ysgolion sy'n rhoi cymorth strwythuredig ar waith ar gyfer rhieni, yn hytrach na digwyddiadau unigol, yn fwy tebygol o arfarnu effaith eu dull ar safonau a lles.

**Astudiaeth achos: gweithio gyda rhieni i gyflymu datblygiad emosiynol**

Ysgol gynradd gymunedol yn y Drenewydd, Powys, yw **Ysgol Gynradd Gymunedol Maesyrhandir**. Mae 210 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 40% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

Dangosodd gyfran fawr o ddisgyblion oedi o ran eu datblygiad emosiynol, ac roedd llawer ohonynt yn ei chael yn anodd cynnal perthnasoedd cadarnhaol. Dewiswyd y dull gan ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth, ac mae'n darparu cynlluniau gweithredu teilwredig ar gyfer yr ysgol a'r cartref i fynd i'r afael ag anghenion unigol disgyblion a chyflymu datblygiad emosiynol.

Mae gweithio'n agos gyda rhieni yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen. Cyfarfu staff hyfforddedig â rhieni yn rheolaidd i drafod anghenion unigol plant ac esbonio'r ymyrraeth iddynt. Rhoddwyd cynlluniau cartref i rieni eu gwneud gyda'u plant y tu allan i'r ysgol. Sefydlwyd "Thrive Hive" dynodedig ar gyfer oedolion allweddol, gan gynnwys rhieni, i weithio ar gynlluniau gweithredu. Yn ychwanegol, bu'r ysgol yn cydweithio ag elusen leol, "Honeypot" i alluogi plant targedig i dreulio diwrnod yr wythnos yn y ganolfan i weithio ar eu cynlluniau am gyfnod o chwe wythnos. Gwahoddwyd rhieni i dreulio'r diwrnod olaf gyda'u plant i gael hwyl gyda'u plant tra oeddent yn gweithio ar y rhaglen gyda'i gilydd. Talwyd cost y rhaglen trwy'r grant datblygu disgyblion.

Rhoddodd y rhaglen ddull cadarnhaol a strwythuredig i staff gynorthwyo disgyblion â datblygiad emosiynol. Mae bron pob un o'r disgyblion wedi gwneud cynnydd nodedig, ac mae tua hanner ohonynt wedi cyrraedd y cam datblygu cywir ar gyfer eu hoedran cronolegol. Mae'r ysgol yn bwriadu staffio'r "Thrive Hive" yn llawn a hyfforddi'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol i fod yn Ymarferwr Thrive Teuluoedd.

### Rhaglenni cyn-ysgol

64 Mae lleiafrif o ysgolion cynradd yn hynod effeithiol yn ymgysylltu â rhieni cyn i'w plentyn ymuno â'r ysgol. Gall y rhain fod yn weithgareddau fel tylino babanod, neu weithgareddau eraill i gynorthwyo â datblygiad plant neu ddarpariaeth anogaeth. Defnyddir y cyfleoedd hyn yn effeithiol i feithrin perthnasoedd cadarnhaol, i gynorthwyo teuluoedd â chyngor penodol, a nodi a rhoi cymorth ar waith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar.

### Gweithio gyda phartneriaid i ymgysylltu'n effeithiol â rhieni

65 Mae bron pob ysgol yn gweithio'n briodol gydag asiantaethau allanol a phartneriaid eraill i gynorthwyo neu ddatblygu eu darpariaeth eu hunain ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Pan fydd hyn yn hynod effeithiol, mae ysgolion, yn aml mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, yn darparu rhaglenni dysgu teuluol a chyngor i rieni ar faterion meddygol, addysgol a lles. Mewn ysgolion sydd ag arfer dda, mae staff yn cydlynu gwaith gwasanaethau arbenigol yn hynod effeithiol i gynorthwyo rhieni a theuluoedd sy'n delio ag amgylchiadau heriol neu argyfyngau. Mae rhai ysgolion yn cydnabod bod rhieni'n teimlo'n fwy hyderus yn cyfarfod ag asiantaethau allanol ar gampws yr ysgol ac yn hwyluso hyn. Mae'r dulliau hyn yn

cefnogi lles teuluoedd a disgyblion yn effeithiol i leihau’r tebygolrwydd y bydd disgybl yn cael ei wahardd, gwella presenoldeb, neu gynnig darpariaeth amgen effeithiol ar gyfer disgyblion sy’n agored i niwed.

### Cydlynwyr cartref-ysgol

66 Mae lleiafrif o ysgolion, ysgolion cynradd yn aml, wedi penodi cydlynwyr cartref-ysgol i ddarparu cymorth bugeiliol ar gyfer rhieni a helpu meithrin perthnasoedd rhwng ysgolion a rhieni sy’n ei chael yn heriol cyfranogi. Pan gaiff y rôl hon ei chyflawni’n hynod effeithiol, mae gan y cydlynydd cartref-ysgol brofiad sylweddol mewn delio â dysgwyr sy’n agored i niwed neu gefnogi’r gymuned leol, ac yn aml, mae ganddo/ganddi rôl allweddol mewn trefnu gweithio amlasiantaethol a gweithio mewn partneriaeth. Maent yn meithrin ymddiriedaeth rhieni yn llwyddiannus, yn trefnu, ac weithiau’n datblygu a chyflwyno gweithgareddau dysgu teuluol a chymunedol. Defnyddir rhai ohonynt hefyd i gynorthwyo â chynghorau rhieni. Mewn rhai ysgolion, mae ganddynt rôl ganolog mewn dull ysgol gyfan o ymgysylltu â theuluoedd.

### Gweithgareddau dysgu teuluol

67 Mae rhai ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd ac arbennig, yn cynnal gweithgareddau dysgu sy’n galluogi rhieni a’u plant i ddysgu rhywbeth gyda’i gilydd, er enghraifft codio a chlybiau coginio. Mae Ysgol Aberteifi yng Ngheredigion wedi cynnal sesiynau lle mae disgyblion fel “dewiniaid digidol” yn hyfforddi rhieni i ddefnyddio llwyfannau TGCh penodol fel HwB. Mae’r ysgol wedi creu system “grid gwaith cartref” hefyd sy’n darparu cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni weithio gyda’i gilydd ar dasgau penodol. Mae rhai ysgolion hefyd yn helpu rhieni i ymgysylltu o’r newydd ag addysg trwy ddarparu cyfleoedd i gael achrediad trwy Agored Cymru, cyrsiau dysgu oedolion neu gyrsiau prifysgol, er enghraifft ar ddatblygiad plant.

**Astudiaeth achos: Dysgu teuluol**

Ysgol arbennig ddydd awdurdod lleol yw **Ysgol Tŷ Gwyn** sydd wedi’i lleoli yn ardal Llanfihangel-ar-Elái yng Nghaerdydd. Mae’n darparu ar gyfer 172 o blant a phobl ifanc 3-19 oed sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mae llawer o ddisgyblion wedi cael diagnosis o anhwylder y sbectrwm awtistig hefyd ac mae eu hymddygiad yn ddifrifol heriol.

Mae pedwar deg dau y cant o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, ac mae 42% o gefndiroedd heb fod yn wyn. Mae bron pob un o’r disgyblion yn gweithredu o fewn graddfeydd-P.

Gan fod bron pob un o’r disgyblion yn cael eu cludo i’r ysgol, cyfyngedig yw’r cyfleoedd ar gyfer cysylltiad wyneb yn wyneb â rhieni. Felly, bu’r ysgol yn chwilio am ffyrdd eraill o ymgysylltu â rhieni. Agorodd Ganolfan Deuluol yn 2007 i ddarparu cyngor, cymorth a hyfforddiant ar gyfer rhieni a theuluoedd. Mae’r Ganolfan wedi tyfu dros y 10 mlynedd ddiwethaf, ac erbyn hyn, mae’n darparu ystod helaeth o ddarpariaeth i gynorthwyo rhieni. Mae hyn yn cynnwys:

- cwnsela
- Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill

- rheoli ymddygiad
- ymweliadau cymorth cartref
- grwpiau rhieni a babanod
- TGCh i ddechreuwyr
- llyfrgell benthyca teganau ac adnoddau
- therapi cyffwrdd
- dawnsio Rubicon
- dosbarthiadau crefft
- bwyta'n iach
- cadw'n heini
- clinig cysgu
- hyfforddiant epilepsi
- cymorth cyntaf paediatrig

Bu'r ysgol yn gweithio'n agos â gwasanaethau cymorth yr awdurdod lleol i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i deilwra eu gwasanaethau, gan ystyried sensitifrwydd diwylliannol ac anghenion unigol, er enghraifft trwy ddarparu gofal plant, cludiant ac ychydig o raglenni ar gyfer merched yn unig.

Yn ogystal â'r Ganolfan Deuluol, mae gan yr ysgol ystafell ddynodedig hefyd i rieni ei defnyddio pan fyddant yn ymweld â'r ysgol. Mae teledu, system gerddoriaeth, teganau ar gyfer brodyr a chwiorydd iau, mynediad i'r rhyngrwyd a lluniaeth yn yr ystafell, yn ogystal ag amrywiaeth o daflenni gwybodaeth i rieni. Mae'r awyrgylch hamddenol yn helpu rhieni i baratoi ar gyfer ymgynghori, sy'n gallu achosi straen ar brydiau.

Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r "siop un stop" yn y Ganolfan Deuluol. Mae rhieni ar raglenni ymddygiad yn adrodd am hyder cynyddol wrth ddelio ag ymddygiad heriol. Mae teuluoedd yn croesawu'r cyfle i gyfarfod â theuluoedd eraill sy'n profi problemau tebyg ac mae rhai ohonynt wedi datblygu cyfeillgarwch cryf â rhieni eraill trwy ymwneud â'r Ganolfan Deuluol. Mae staff yn y ganolfan yn ymateb yn rhagweithiol i anghenion rhieni trwy drefnu mewnbwn arbenigol ar gyfer pryderon penodol neu drwy gyfeirio at sefydliadau sy'n gallu darparu rhagor o gymorth. Mae llawer o rieni yn parhau i ddefnyddio'r ganolfan fel lle i gymdeithasu pan fydd eu plant yn symud yn eu blaenau i'r brif ysgol.

## Cynnwys rhieni ym mywyd a gwaith yr ysgol

### Dathliadau, digwyddiadau cymdeithasol a gwirfoddoli

68 Mae'r ysgol yn defnyddio nifer o ffyrdd i annog rhieni i gymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae bron pob ysgol ar draws pob sector yn gwahodd rhieni i gyngherddau, perfformiadau drama a digwyddiadau eraill i ddathlu gwaith disgyblion. Mae llawer o ysgolion cynradd neu eu cymdeithasau rhieni ac athrawon yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol, fel boreau coffi, a sesiynau galw i mewn er mwyn i rieni feithrin perthnasoedd â'r ysgol a rhieni eraill. Mae mwyafrif yr ysgolion yn gwahodd rhieni i wirfoddoli. Mae hwn yn faes ymgysylltu â theuluoedd lle mae rhai ysgolion yn ymgysylltu â thadau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae llwyddiant y mentrau hyn yn amrywio yn dibynnu ar lefel yr ymgysylltu sydd ei hangen. Mae llawer o'r rhwystrau rhag cymryd rhan a nodwyd gan ysgolion yn adlewyrchu'r rheiny y maent yn eu profi wrth drefnu gweithgareddau i gynorthwyo rhieni i ymgysylltu â dysgu eu plant.

69 Caiff rhieni plant ysgolion uwchradd lai o gyfleoedd i gymryd rhan yng ngwaith yr ysgol na rhieni plant ysgolion cynradd. Nid yw tua hanner rhieni ysgolion uwchradd a lleiafrif o rieni ysgolion cynradd yn teimlo eu bod yn cael cyfleoedd addas i gael eu cynnwys ym mywyd yr ysgol.

70 Pan fydd gan ysgolion gymdeithasau rhieni ac athrawon gweithgar, mae llawer ohonynt yn codi arian ar gyfer yr ysgol ac yn cynorthwyo mewn digwyddiadau ysgol, ac mae rhai ohonynt yn ymgysylltu â chymuned ehangach yr ysgol i gefnogi gweithgareddau dysgu ac ymgynghori. Mewn rhai achosion, dywed ysgolion a rhieni nad yw'r grŵp craidd bob amser yn ymgysylltu'n llwyddiannus â chymuned ehangach y rhieni.

### Ymgynghori â rhieni am ddarpariaeth

71 Mae llawer o ysgolion yn ymgynghori'n briodol â rhieni, er enghraifft trwy ofyn am adborth ar ddiwedd adroddiad plentyn, cyflwyno holiaduron blynyddol cyffredinol neu, yn llai cyffredin, cynnal ymarferion ymgynghori pwrpasol ehangach ar faterion sy'n effeithio arnynt fel gwisg ysgol, bwlio, neu faterion iechyd a diogelwch. Dywed ysgolion ar draws pob sector mai nifer fach o rieni ar y cyfan sy'n dychwelyd holiaduron neu ymatebion i ymgynghoriadau ehangach. Yn ychwanegol, lleiafrif o rieni yn unig sy'n teimlo bod ysgol eu plentyn yn ymgynghori'n effeithiol â nhw ar addysg eu plentyn, yn gwneud y newidiadau y maent yn eu hawgrymu ac yn eu hysbysu'n dda am y newidiadau y maent wedi eu gwneud o ganlyniad.

72 Er eu bod yn croesawu'r ffaith fod ysgolion yn dechrau defnyddio cyfryngau cymdeithasol, dywedodd rhieni y gallai ysgolion wneud mwy i alluogi rhieni i rannu eu safbwyntiau neu wybodaeth trwy ddefnyddio technoleg fodern a dylent ddefnyddio'r sianeli hyn fel cyfle i reoli'r naratif neu ddefnyddio adborth negyddol fel rhan o hunanarfarnu, yn hytrach na chaniatáu i straeon ledu ar fforymau cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae hyn yn anodd wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, am nad yw'n cynnig y preifatrwydd sy'n angenrheidiol i ddiogelu hawliau unigolion ac mae'n llafurus i'w reoli.

73 Mae rhai ysgolion yn ymgynghori'n llwyddiannus â thrawstoriad ehangach o rieni trwy ddefnyddio arolygon electronig. Dywedant fod rhieni'n fwy tebygol o ymateb yn ddidwyll gan fod ymatebion yn ddienw ac felly'n fwy defnyddiol at ddibenion hunanarfarnu. Mae rhai ysgolion yn defnyddio cymwysiadau digidol caeedig i gael blas o safbwyntiau rhieni a lansio ymarferion ymgynghori, fel newidiadau i bolisïau.

74 Codwyd pryderon gan ryw hanner o'r rhieni y gwnaed arolwg ohonynt ynglŷn â pha mor dda y mae corff llywodraethol eu hysgol yn cynrychioli llais rhieni. Mae'r rhesymau am hyn yn gymhleth. O'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, ychydig o benaethiaid yn unig oedd yn hyderus fod eu cyrff llywodraethol yn cynrychioli cyfansoddiad economaidd gymdeithasol yr ysgol, ac ychydig o ysgolion yn unig a ddywedodd eu bod yn mynd ati i fonitro a sicrhau bod eu corff llywodraethol yn adlewyrchu poblogaeth yr ysgol gyfan. Nid yw hyn wedi gwella ers cyhoeddi adroddiad diwethaf Estyn ar y testun hwn yn 2009.

75 Pan na fydd gan gyrff llywodraethol ryw lawer o gyswllt uniongyrchol â rhieni, os o gwbl, dywed rhieni nad ydynt yn gwybod pwy yw eu rhiant-lywodraethwyr na sut maent yn cefnogi gwelliant yn yr ysgol. Mae hyn yn arbennig o wir am ysgolion uwchradd. Mae hyn yn gwneud iddynt ymddangos ar wahân ac nid oes gan y rhieni hyn yr hyder fod y corff llywodraethol yn cynrychioli eu buddiannau yn effeithiol. Caiff y safbwynt hwn ei ddwysáu pan fydd rhiant-lywodraethwyr hefyd yn athrawon neu'n gyflogeion eraill yn yr ysgol. Er bod llawer o riant-lywodraethwyr sydd hefyd yn cael eu cyflogi gan yr ysgol yn cael eu gwerthfawrogi gan rieni ac athrawon fel ei gilydd, mewn lleiafrif o achosion, gall hyn wneud i rieni amgyffred bod cynrychiolaeth rhieni wedi cael ei dileu o'r corff ac mae hyn yn peryglu hygrededd.

76 Mae ysgolion ag arfer dda yn defnyddio dulliau amrywiol o wella cyrhaeddiad eu corff llywodraethol. Er enghraifft, mae ganddynt dudalennau dynodedig ar eu gwefan neu dudalennau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer gwybodaeth gan lywodraethwyr. Mae rhai cyrff llywodraethol yn cynnal nosweithiau gwybodaeth neu sesiynau holi ac ateb ar gyfer cymuned ehangach y rhieni, neu maent yn ymgynghori â rhieni yn lle arweinwyr yr ysgol at ddibenion hunanarfarnu. Er enghraifft, mae'r corff llywodraethol yn Ysgol Gymraeg y Fenni, Sir Fynwy, yn cynnal cyfarfodydd ymgynghori gyda rhieni heb fod aelodau o staff yr ysgol yn bresennol, i annog rhieni i fod yn agored. Mae ymgynghoriadau fel hyn wedi arwain at gyflwyno tudalen Facebook, y mae 70% o rieni'n ei dilyn, a newid i hyd cylchlythyrau, a pha mor rheolaidd y cânt eu dosbarthu. Mae enghreifftiau eraill o ddulliau gan lywodraethwyr i ymgysylltu â rhieni yn eu gwaith yn cynnwys ysgolion sydd wedi rhoi cyfrifoldeb penodol i lywodraethwr am gydlynu gwaith y corff llywodraethol ar ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned.

77 Mae lleiafrif o ysgolion cynradd a rhai ysgolion uwchradd yn ceisio ymgynghori â thrawstoriad ehangach o rieni trwy eu fforymau neu gynghorau rhieni. Er bod rhai cynghorau rhieni wedi datblygu o gymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol, neu tra bydd yn cyflawni'r rôl hon ochr yn ochr â'i gweithgareddau codi arian a gweithgareddau cymdeithasol, mae llawer ohonynt wedi cael eu sefydlu'n benodol i gynorthwyo'r ysgol â hunanarfarnu. Mae ysgolion â fforymau rhieni wedi mabwysiadu ystod o arferion i annog cyfranogiad cryf a gwella hygrededd y fforwm, er enghraifft trwy ethol un rhiant o bob dosbarth, neu drwy beidio â'u galw'n "gyfarfodydd". Yn aml, cefnogir fforymau rhieni effeithiol gan aelod o staff yr ysgol, er enghraifft y swyddog cyswllt teuluol neu gymunedol, arweinydd neu'r pennaeth. Mae

gan rai cymdeithasau rhieni gylch gorchwyl neu siarteri clir hefyd. Mae'r dulliau hyn yn sicrhau bod cyfarfodydd yn parhau i fod yn amgylcheddau adeiladol ar gyfer gwella'r ysgol. At ei gilydd, mae ysgolion â chynghorau rhieni yn ymgynghori'n effeithiol â rhieni ar ystod eang o ddarpariaeth, fel addysgeg, y cwricwlwm neu'u hanghenion gwybodaeth a dysgu.

**Astudiaeth achos: Cynghorau rhieni**

Mae **Ysgol Gynradd Pont-y-clun** yn Rhondda Cynon Taf. Mae 519 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 6% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

Yn ystod ei harolygiad yn 2016, rhoddwyd argymhelliad i'r ysgol wella cyfathrebu â rhieni. I ymateb i hyn, penododd yr ysgol arweinydd ar gyfer cyfathrebu a defnyddiodd becyn cymorth FaCE ochr yn ochr â chamau gweithredu yn ei chynllun gweithredu ôl-arolygiad, nid yn unig i wella'r modd y mae'n cyfathrebu â rhieni ond hefyd i gynyddu ymgysylltu â rhieni a chodi proffil yr ysgol yn y gymuned leol.

Cynhaliodd yr ysgol archwiliad gwaelodlin o'i dulliau gan ddefnyddio'r pecyn cymorth, a ffurfiodd sylfaen ei chynllun gweithredu â blaenoriaethau allweddol.

Ymgynghorodd yr arweinydd cyfathrebu â rhieni mewn noson agored ar eu dewisiadau cyfathrebu. Ar y noson, cynigiwyd camau gweithredu i wella cyfathrebu, a symbyliad hefyd i ffurfio cyngor rhieni er mwyn gwella rhan rhieni mewn gwneud penderfyniadau. Mae'r cyngor yn cyfarfod bob hanner tymor, ac mae ganddo siarter a phrotocol cytûn ar gyfer cynnal cyfarfodydd. Mae'r arweinydd cyfathrebu yn aelod o'r cyngor fel cynrychiolydd yr ysgol, ond caiff cyfarfodydd eu cadeirio gan gynrychiolydd rhieni etholedig. Gosodir agendâu yn seiliedig ar gyfuniad o anghenion a nodwyd gan yr ysgol a chan rieni, wedi eu cyfleu trwy'r cynrychiolwyr. Cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd ac mae gan siarter y cyngor ganllawiau clir ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i sicrhau adborth cyson i rieni.

Penododd yr ysgol lywodraethwr hefyd sy'n gyfrifol am ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, a datblygodd ei defnydd o Hwb fel cyfrwng ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd ac i arbrofi â syniadau a awgrymwyd gan y cyngor rhieni. Adroddir am gynnydd yn unol â'i chynllun gweithredu i'r corff llywodraethol bob hanner tymor.

Defnyddiwyd canlyniadau holiadur cymunedol i gyflwyno ffyrdd i aelodau'r gymuned gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol, ac i'r gwrthwyneb. O hyn, mynychodd côr yr ysgol ddigwyddiadau cymunedol, ac mae busnesau lleol wedi darparu ymweliadau a gweithdai ar gyfer disgyblion a theuluoedd. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ddathlu trwy wefan yr ysgol a chylchlythyrau disgyblion.

Hyd yma, mae'r gwaith hwn wedi arwain at gynnydd yn y canlynol:

- aelodau o gymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol a'r cyngor rhieni
- gwahoddiadau i ddigwyddiadau lleol
- ymholiadau gan gwmnïau i weithio gyda grwpiau yn yr ysgol

O ganlyniad, mae partneriaethau rhwng yr ysgol a'r gymuned leol yn fwy effeithiol

a bu cynnydd nodedig ym mhroffil yr ysgol yn yr ardal leol.


Hefyd, mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni yn fwy effeithiol ac fe gaiff yr holl randdeiliaid eu cynnwys yn ystyrlon yn natblygiad gweithredol a strategol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn parhau i weithio tuag at ddatganiadau "dylai ysgolion llwyddiannus" ym mhecyn cymorth FaCE.

## Boddhad rhieni, gweithio mewn partneriaeth a chanfyddiadau arolygu

78 Mae gweithio mewn partneriaeth yn dda neu'n well mewn ychydig dros 92% o ysgolion a gynhelir a arolygwyd rhwng Medi 2010 a Gorffennaf 2017. Hwn yw'r perfformiad uchaf ym mhob un o'r dangosyddion ansawdd a arolygwyd yn ystod y cylch hwnnw[1]. Mae ymgysylltiad ysgolion â rhieni yn un o'r agweddau allweddol a farnwyd gan arolygwyr o fewn y dangosydd ansawdd hwn.

**Ffigur 4: Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth mewn ysgolion a gynhelir (2010-2017)**




79 Cymharu ymatebion rhieni â'r cwestiynau cyn yr arolygiad:

- "Rydw i'n deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion"
- "Rydw i'n teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol i ofyn cwestiynau, cynnig awgrymiadau neu godi problem", ac
- "Rydw i'n cael fy hysbysu'n dda am gynnydd fy mhlentyn"


ac mae barnau ar gyfer **Deilliannau Cwestiwn Allweddol 1** (gan gynnwys safonau a lles) ym mhob ysgol a arolygwyd yn ystod y cylch arolygu diwethaf yn dangos bod boddhad rhieni ag ysgolion yn uchel ar y cyfan, ac mae perthynas agos rhwng barnau arolygwyr ar gyfer deilliannau a graddau boddhad rhieni a gasglwyd mewn holiaduron cyn-arolygiad i rieni.

80 Mae rhieni sydd â phlant mewn ysgolion yng ngrwpiau meincnod PYDd 4 a 5 (amddifadedd uchel) ac sydd â barnau rhagorol, da neu ddigonol ar gyfer deilliannau yn hapusach ar y cyfan â'r modd y mae'r ysgol yn ymgysylltu â nhw na rhieni sydd â phlant mewn ysgolion yng ngrwpiau meincnod 1 a 2 (amddifadedd isel).


81 Fodd bynnag, mae'n wir i'r gwrthwyneb lle barnwyd bod ysgolion yn anfoddhaol ar gyfer deilliannau. Yn yr achosion hyn, mae rhieni sydd â phlant mewn ysgolion yng ngrwpiau meincnod 4 a 5 yn llai bodlon o gryn dipyn â lefel yr ymgysylltu â rhieni, fel y bernir gan ymatebion i'r cwestiynau hyn, nag ysgolion y barnwyd eu bod yn anfoddhaol ac yng ngrwpiau meincnod 1 a 2.

[1] Fframwaith arolygu cyffredin 2010


**Ffigur 5: Canran yr atebion cadarnhaol i "Rydw i'n deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion" o gymharu â barnau ar gyfer deilliannau yn ystod arolygiadau o ysgolion a gynhelir (2010-2017)**




**Ffigur 6: Canran yr atebion cadarnhaol i "Rydw i'n teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol i ofyn cwestiynau, cynnig awgrymiadau neu godi problem" o gymharu â barnau ar gyfer deilliannau yn ystod arolygiadau o ysgolion a gynhelir (2010-2017)**



**Ffigur 7: Canran yr atebion cadarnhaol i "Rydw i'n cael fy hysbysu'n dda am gynnydd fy mhlentyn" o gymharu â barnau ar gyfer deilliannau yn ystod arolygiadau o ysgolion a gynhelir (2010-2017)**



## Sail y dystiolaeth

Mae canfyddiadau'r adroddiad yn seiliedig ar ddadansoddiad o ganfyddiadau o'r canlynol:

- 37 o gyfweliadau gyda phenaethiaid a'u staff mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a ddewiswyd i sicrhau dosbarthiad cytbwys o ganran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, lleoliad daearyddol a chyfrwng y cyfarwyddyd
- Holiadur ar-lein dienw i rieni a lenwyd gan 222 o rieni
- Cyfarfod grŵp ffocws o rieni sydd â phlant mewn ysgolion arbennig ac ysgolion cynradd
- Tystiolaeth gan rieni a disgyblion a gasglwyd ar arolygiad fel rhan o'r ffocws thematig ychwanegol

Rhestr o ysgolion a gymerodd ran mewn cyfweliadau dros y ffôn:

Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, Caerdydd
Ysgol Crug Glas, Abertawe
Ysgol David Hughes, Ynys Môn
Ysgol Glan Morfa, Conwy
Ysgol Gyfun Rhymni, Caerffili
Ysgol Gymraeg Y Fenni, Sir Fynwy
Ysgol Gymunedol Llangatwg, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Gynradd Aberteifi, Ceredigion
Ysgol Gynradd Cymer Afan, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Gynradd Gymunedol Hook, Sir Benfro
Ysgol Gynradd Maesyrhandir, Powys
Ysgol Gynradd Mihangel Sant, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Pont-y-clun, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Tynewydd, Caerffili
Ysgol Gynradd Y Tywyn, Ynys Môn
Ysgol Panteg, Torfaen
Ysgol Pendalar, Gwynedd
Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Uwchradd Llanisien, Caerdydd
Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Pen Y Fai, Pen-y-bont ar Ogwr

Rhestr o ysgolion a gymerodd ran trwy ffocws thematig ychwanegol mewn arolygiadau:

Ysgol Bro Cinmeirch, Sir Ddinbych
Ysgol Fabanod Llanfabon, Caerffili
Ysgol Fabanod Porth, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gymuned y Fali, Ynys Môn
Ysgol Gymunedol Glynrhedynog, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Brynsiencyn, Ynys Môn

Ysgol Gynradd Glyncoed
Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfaes, Powys
Ysgol Gynradd Lansdowne, Caerdydd
Ysgol Gynradd Nebo, Gwynedd
Ysgol Gynradd Parc y Rhath, Caerdydd
Ysgol Gynradd Tongwynlais, Caerdydd
Ysgol Gynradd Tre-gŵyr, Abertawe
Ysgol Iau Hendre, Caerffili
Ysgol Llanddoged, Conwy
Ysgol Rhydypennau, Caerdydd
Ysgol Uwchradd Castell Alun, Sir y Fflint

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Agored Cymru** | Corff dyfarnu cymwysterau sydd hefyd yn dilysu rhaglenni dysgu trwy gymhwyso ei farc safon |
| **Cwestiwn Allweddol** | O dan y fframwaith arolygu cyffredin blaenorol ar gyfer Cymru 2010-2017, arolygwyd gwaith ysgolion o dan dri phrif faes o'r enw Cwestiynau Allweddol, sef Cwestiwn Allweddol 1 Safonau, Cwestiwn Allweddol 2 Darpariaeth a Chwestiwn Allweddol 3 Arweinyddiaeth. |
| **Dangosydd Ansawdd** | O dan y fframwaith arolygu cyffredin blaenorol ar gyfer Cymru 2010-2017, isrannwyd agweddau ar waith yr ysgol o dan bob Cwestiwn Allweddol yn ddangosyddion ansawdd. |
| **Graddfa P** | Meini prawf asesu ar gyfer nodi cynnydd islaw lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol |
| **Grwpiau meincnod** | Mae meincnodi yn cymharu perfformiad un ysgol yn erbyn ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Ystyrir PYDd fel prif ddangosydd amddifadedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn galluogi cymharu perfformiad ysgol yn erbyn ysgolion eraill sydd yn yr un categori PYDd, ac a allai felly fod yn derbyn nifer debyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Rhennir ysgolion yn bum grŵp meincnod, a grŵp 1 sydd â'r gyfran leiaf o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, ac ysgolion yng ngrŵp 5 sydd â'r gyfran uchaf. |
| **Hwb** | Mae platfform Llywodraeth Cymru, Hwb, yn cynnal casgliad cenedlaethol o offer ac adnoddau digidol i gefnogi addysg yng Nghymru. |
| **Pecyn cymorth FaCE** | Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 |
| **Post disgyblion** | Gohebiaeth ysgrifenedig gan ysgolion i rieni a ddosberthir trwy eu plant |
| **Ymyrraeth** | Camau gweithredu a gymerwyd i wella lles neu safonau disgyblion, yn aml lle nodwyd maes i'w ddatblygu. |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau


Arnstein S.R. (1969) A Ladder of Citizen Participation. *Institute of Planners, 35*(4), tt. 216-224

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Education Endowment Foundation (2016) *Texting parents: Evaluation report and executive summary*. London: Education Endowment Foundation. [Ar-lein]. Ar gael o: https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Projects/Evaluation_Reports/Texting_Parents.pdf [Defnyddiwyd 5 Mawrth 2018]

Estyn (2009) *Arfer dda o ran cynnwys rhieni mewn ysgolion cynradd*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Arfer%20dda%20o%20ran%20cynnwys%20rhieni%20mewn%20ysgolion%20cynradd%20-%20Ebrill%202009.pdf [Defnyddiwyd 16 Chwefror 2018]

Ipsos (2017) *Tech Tracker Quarterly Release: Q4 2017.* Paris: Ipsos. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.ipsos.com/sites/default/files/ct/publication/documents/2018-01/ipsos-tech_tracker_q4_2017.pdf [Defnyddiwyd 5 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cymru (2014) *Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dcells/publications/140616-rewriting-the-future-raising-ambition-and-attainment-in-welsh-schools-cy.pdf [Defnyddiwyd 16 Chwefror 2018]

Llywodraeth Cymru (2015) *Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/resources/browse-all/family-and-community-engagement-toolkit/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 16 Chwefror 2018]

Llywodraeth Cymru (2016) *Barn am Addysg yng Nghymru: arolwg ail-gysylltu.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/161110-views-education-re-contact-survey-en.pdf [Defnyddiwyd 27 Ebrill 2018] (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2017) *Cronfa Ddata Arholiadau Cymru.* Heb ei chyhoeddi

Llywodraeth Cymru (2017) Ymgyrch Mae addysg yn dechrau yn y cartref: Adroddiad Terfynol Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhieni.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/091020frameworkcy.pdf [Defnyddiwyd 16 Chwefror 2018]

National College for School Leadership (2011) *How to involve hard-to-reach parents: encouraging meaningful parental involvement with schools*. Nottingham: National College for School Leadership. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/340369/how-to-involve-hard-to-reach-parents-full-report.pdf [Defnyddiwyd 5 Mawrth 2018]

Nuffield Foundation (2013) *What do rigorous evaluations tell us about the most promising parental involvement interventions? A critical review of what works for disadvantaged children in different age groups.* Durham: Durham University. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.nuffieldfoundation.org/sites/default/files/files/What_do_rigorous_evaluations_tell_us_about_the_most_promising_parental_involvement_interventions.pdf [Defnyddiwyd 5 Mawrth 2018]

Ofsted (2011) *Schools and parents*. Manchester: Ofsted. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/413696/Schools_and_parents.pdf [Defnyddiwyd 5 Mawrth 2018]

Ofsted (2015) *Parents as partners in teaching: Trimdon Grange Infant and Nursery School*. Manchester: Ofsted. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.shropshirelg.net/media/313387/Trimdon_Grange_Infant_and_Nursery_School_-_good_practice_example.pdf [Defnyddiwyd 27 Ebrill 2018]

PTA UK (2017) *Annual Parent Survey 2016.* Kent: PTA UK. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.parentkind.org.uk/uploads/files/1/Parent%20Insight%202016%20Full%20Report%20FINAL.pdf [Defnyddiwyd 27 Ebrill 2018]

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2003) *The impact of parental involvement, parental support and family education on pupil achievement and adjustment: A literature review.* London: Department for education and skills. [Ar-lein]. Ar gael o: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110506160922/https://www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/RR433.pdf [Defnyddiwyd 5 Mawrth 2018]